Rhaglen Gyflawn

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD**

Dyddiad ac Amser

**1.30 y.h., DYDD GWENER, 19EG MEHEFIN, 2026**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Sera Jane Whitley**

**serajanewhitley@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 12/06/2026)

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**

| | |
|---|---|
| | **Aelodau Cyngor** |
| Cyng. Jason McLellan | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng. Gary Pritchard | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng. Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng. Mark Pritchard | Cyngor Wrecsam |
| Cyng. Dave Hughes | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng. Nia Jeffreys | Cyngor Gwynedd |
| | **Aelod Eryri** |
| Cyng. Ifor Glyn Lloyd | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| | **Prif Weithredwyr Cynghorau Cyfansoddol** |
| Dafydd Gibbard | Cyngor Gwynedd |
| Dylan Williams | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Rhun ap Gareth | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Neal Cockerton | Cyngor Sir y Fflint |
| Helen White | Cyngor Sir Ddinbych |
| Alwyn Jones | Cyngor Wrecsam |
| Jonathan Cawley | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| | **Swyddogion Statudol** |
| Alwen Williams | Prif Weithredwr y Cyd-Bwyllgor |
| Dewi Aeron Morgan | Prif Swyddog Cyllid |
| Mark Watkins | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithriol/Swyddog Monitro (dros dro) |

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

**2. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2026/27**

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2026/27.

**3. ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER 2026/27**

I ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2026/27.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatgan o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL** 5 - 13

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 20 Mawrth, 2026 fel rhai cywir.

**7. RHAGLEN CYFARFODYDD AR GYFER 2026/27** 14

Mark Watkins, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro (dros dro) i gyflwyno'r adroddiad.

**8. CYNLLUNIO CORFFORAETHOL** 15 - 17

Alwen Williams, Prif Weithredwr i gyflwyno'r adroddiad.

**9. ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG** 18 - 35

Nia Medi Williams, Rheolwr Adnoddau a Gweithrediadau a Nia Llwyd Lewis, Rheolwr Gwasanaeth y Gymraeg a Chyfieithu i gyflwyno'r adroddiad.

**10. POLISI CANMOLIAETHAU, SYLWADAU A CHWYNION** 36 - 51

Alwen Williams, Prif Weithredwr i gyflwyno'r adroddiad.

**11. DATGANIAD POLISI TAL 2026/27** 52 - 57

Eleri Jones, Rheolwr Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol i gyflwyno'r adroddiad.

**12. SEFYLLFA ALLDRO REFENIW A CHYFALAF 2025/26** 58 - 74

Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol CBC) a Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid i gyflwyno'r adroddiad.

**13. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS 2025/26** 75 - 82

Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol CJC) a Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi i gyflwyno'r adroddiad.

**CYFARFOD ARBENNIG O GYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD 20/03/26**

**Presenoldeb:**

**Yn bresennol:** Cadeirydd: Y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Y Cynghorwyr:** Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint), Medwyn Hughes (Cyngor Gwynedd), Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych).

**Prif Swyddogion:** Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn).

**Swyddogion eraill yn bresennol**: Alwen Williams (Prif Weithredwr y Cyd-Bwyllgor Corfforedig), Sandra Evans (Arweinydd Tîm Ymgynghorydd Adnoddau Dynol – Cyngor Gwynedd), Sera Whitley (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth – Cyngor Gwynedd).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

- Cynghorydd Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)
- Cynghorydd Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd) gyda'r Cynghorydd Medwyn Hughes yn dirprwyo
- Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)
- Helen White (Cyngor Sir Ddinbych)
- Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint)
- Alwyn Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)
- Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni chofnodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol yn y cyfarfod.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Penderfynwyd cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Nodwyd fod y paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.

**5. CYFWELD YMGEISWYR AR GYFER SWYDD CYFARWYDDWR PORTFFOLIO CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD**

a) Cadarnhawyd trefn y diwrnod gyda'r Aelodau. Mynegwyd bod un ymgeisydd wedi tynnu ei gais yn ôl oherwydd amgylchiadau personol.

b) Cyfwelwyd dau ymgeisydd ar gyfer swydd Cyfarwyddwr Portffolio Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

c) Gwahoddwyd yr ymgeiswyr i roi cyflwyniad 10 munud ar y testun 'Beth ydych yn ei weld fel y prif gyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu economi Gogledd Cymru – sut ydych yn gweld y Cynllun Twf yn blaenoriaethu ac yn ymateb i'r cyfleoedd a'r heriau hyn'.

   Ymatebwyd i chwe cwestiwn ffurfiol a ofynnwyd gan yr Arweinyddion, ynghyd a chwestiynau dilynol.

ch) Bu i Alwen Williams adrodd ar ganlyniadau profion seicometreg a gwblhawyd gan yr ymgeiswyr, ynghyd ag adborth o'r ganolfan asesu, fel rhan o'r broses penodi.

   Cadarnhawyd mai'r matrics sgorio a ddefnyddiwyd yn y ganolfan asesu. Sgoriodd yr Arweinyddion y ddau ymgeisydd ar eu cyflwyniadau a'u hatebion i'r chwe cwestiwn ffurfiol, a rhoddwyd sgôr cyfartalog i'r ddau ymgeisydd.

d) Cynigwyd ac eiliwyd bod y swydd yn cael ei chynnig i Hedd Vaughan-Evans.

   Pleidleisiwyd ar y cynnig.

**PENDERFYNWYD PENODI HEDD VAUGHAN-EVANS I'R RÔL CYFARWYDDWR PORTFFOLIO CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD.**

Diolchwyd i bawb am eu hamser a'u cyfraniadau yn ystod y broses gyfweliadau hon.

Dechreuodd y cyfarfod am 09:30 a daeth i ben am 12:45

__________________________________

(Cadeirydd)

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**
**20/03/2026**

**Yn bresennol:** Cadeirydd: Y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Y Cynghorwyr:** Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint), Medwyn Hughes (Cyngor Gwynedd), Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych) ac Edgar Owen (Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

**Prif Weithredwyr Cynghorau Cyfansoddol:** Sioned Williams (Cyngor Gwynedd), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Helen White (Cyngor Sir Ddinbych), Alwyn Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Jonathan Cawley (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

**Swyddogion eraill yn bresennol**: Alwen Williams (Prif Weithredwr y Cydbwyllgor Corfforedig (CBC)), Dewi Morgan (Prif Swyddog Cyllid - Cyngor Gwynedd) Sian Pugh (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid - Cyngor Gwynedd), Sara Jane Jones (Uwch Gyfrifydd - Cyngor Gwynedd), Delyth Wyn Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi - Cyngor Gwynedd), Dylan Rhys Griffiths (Rheolwr Cronfa Ffyniant Cyffredin Gogledd Cymru - Cyngor Gwynedd), Mark Watkins (Swyddog Monitro - Uchelgais Gogledd Cymru), David Hole (Rheolwr Rhaglen Gweithredu’r Cyd-bwyllgor Corfforedig), Ffion Williams (Uwch Swyddog Gweithrediadau - Uchelgais Gogledd Cymru), (Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth - Cyngor Gwynedd), a Sera Whitley (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth - Cyngor Gwynedd).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

- Cynghorydd Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)
- Cynghorydd Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd) gyda Chynghorydd Medwyn Jones yn dirprwyo
- Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd) gyda Sioned Williams yn dirprwyo
- Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)
- Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)
- Claire Incledon (Swyddog Monitro dros dro – Cyngor Gwynedd)
- Nia Medi Williams (Rheolwr Gweithrediadau ac Adnoddau – Uchelgais Gogledd Cymru)
- Adam Graham (Uwch Swyddog Trafnidiaeth – Uchelgais Gogledd Cymru)
- Andy Roberts (Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i’w nodi.

**4. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ar 23 Ionawr, 2026, 6 Chwefror, 2026, a 13 o Chwefror, 2026 fel rhai cywir.

## 5. PENODIAD CYFARWYDDWR PORTFFOLIO CBC GOGLEDD CYMRU

Adroddwyd gan Alwen Williams, Prif Weithredwr y CBC bod y broses recriwtio wedi dod i ben a bod Hedd Vaughan-Evans wedi cael ei benodi i rôl Cyfarwyddwr Portffolio Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Ychwanegwyd bod Hedd Vaughan-Evans bellach wedi' derbyn y swydd.

Mynegwyd llongyfarchiadau iddo ar ran y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

## 6. IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO – CYLCH GORCHWYL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Mark Watkins, Swyddog Monitro y CBC.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwywyd y newidiadau a ganlyn i Gylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- Mai'r cworwm ar gyfer yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fydd 7 aelod gydag o leiaf un Aelod Lleyg yn bresennol.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan amlygu mai pwrpas yr addasiad arfaethedig i'r cylch gorchwyl yw sicrhau bod gan yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y CBC gworwm pan fydd yn cyfarfod, a'i fod yn gallu cyflawni ei ddyletswydd statudol. Eglurwyd bod cworwm wedi bod,ac yn parhau i fod, yn broblem yng nghyfarfodydd yr Is-bwyllgor hwn.

Adroddwyd y byddai'r addasiad yn cadw'r gofyniad cworwm cyfreithiol ac yn cynnal cworwm fel saith aelod gydag o leiaf un aelod lleyg yn bresennol. Ychwanegwyd y bydd yn dileu'r gofyniad bod rhaid i gynrychiolydd o bob Cyngor cyfansoddol fod yn bresennol. Eglurwyd bod yr arfer presennol yn rhy gyfyng.

Amlygwyd bod y mater cworwm eisoes yn cael sylw wrth benodi dirprwyon ar gyfer aelodau'r Is-bwyllgor. Nodwyd siom bod cworwm yn parhau i fod yn broblem, a thynnwyd sylw at y ffaith y dylai Arweinwyr sicrhau bod eu cynrychiolwyr ar yr Is-bwyllgor hwn yn mynychu'r cyfarfodydd.

Mynegwyd cefnogaeth i'r addasiad gan ystyried amserlenni prysur aelodau etholedig ac aelodau lleyg. Cydnabuwyd bod yr addasiad yn hanfodol i sicrhau bod yr Is-bwyllgor yn gallu cyflawni ei ddyletswydd statudol.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL DYLETSWYDD PARTNERIAETH GYMDEITHASOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Weithredwr y CBC.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol 2024-25 i'w gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai dyma adroddiad blynyddol cyntaf y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) dan Ddeddf Partneriaethau Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus Cymru 2023. Eglurwyd bod y Ddeddf hon wedi cyflwyno dyletswydd partneriaeth gymdeithasol newydd ar gyfer cyrff cyhoeddus ers 1 Ebrill 2024. Ychwanegwyd fod y ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r CBC gynnwys undebau llafur cydnabyddedig wrth osod amcanion lles a gwneud penderfyniadau strategol, a hefyd i gynhyrchu, cyhoeddi, a chyflwyno adroddiad blynyddol yn egluro sut mae'r dyletswydd wedi'i chyflawni.

Nodwyd bod yr adroddiad yn adlewyrchu cyfnod pontio cynnar yn natblygiad y CBC. Adroddwyd bod y CBC yn weithredol cyn trosglwyddo staff yn ystod y cyfnod adrodd, ac roedd Cyngor Gwynedd, fel yr awdurdod lletyol, yn darparu cefnogaeth Adnoddau Dynol a chefnogaeth ynglŷn ag ymgysylltu ag undebau llafur. O ganlyniad, nodwyd bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar baratoi, alinio a chodi ymwybyddiaeth, gan gynnwys ymgysylltu â thîm Partneriaeth Gymdeithasol Llywodraeth Cymru a chyd-fynd â dull adrodd yr awdurdod lletyol.

Amlygwyd bod y CBC bellach yn sefydlu perthnasau uniongyrchol a ffurfiol ag undebau llafur yn dilyn trosglwyddo staff yn 2025, a bydd adroddiadau yn y dyfodol yn dangos y newid ymarferol hwn.

Cadarnhawyd y byddai'r CBC yn derbyn adborth ar yr adroddiad gan y Cyngor Partneriaeth Cymdeithasol, er bod natur a graddfa'r adborth i'w chadarnhau.

Nodwyd ymhellach bod Partneriaeth Gymdeithasol yn unigryw i Gymru a phwysleisiwyd pwysigrwydd perthnas da ag undebau llafur. Nododd yr Aelodau eu bod yn edrych ymlaen at adroddiadau mwy manwl ar y perthnasau hyn yn y dyfodol.

## 8. DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN TRAWSNEWID A GWELLA

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Weithredwr y CBC ac Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) y Rhaglen a Dave Hole, Arweinydd y Rhaglen.

**PENDERFYNWYD:**

Diweddarwyd Aelodau ar gynnydd ar ddiwedd y rhaglen bresennol ar gyfer 2025/26 a'r rhaglen ddiwygiedig barhaus ar gyfer 2026/27.

**TRAFODAETH**

Nodwyd bod yr adroddiad yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r CBC ar y cynnydd a wnaed ar y Rhaglen Trawsnewid.

Eglurwyd bod yr adroddiad yn darparu crynodeb cronolegol ers trosglwyddo'r Bwrdd Uchelgais Economaidd a'r Fargen Twf i'r CBC ar 1af Ebrill 2025, a'i fod wedi'i gyflwyno i gyfarfod y CBC ym mis Mehefin 2025 lle cydnabuwyd natur uchelgeisiol y rhaglen ar gyfer 2025/26. Daethpwyd â'r adroddiad i'r CBC eto ym mis Tachwedd 2025 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd a heriau, ac mae'r rhain wedi'u hegluro yn adran 4 o'r adroddiad.

Nodwyd bod adran 5 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd ar gyfer 2025/26. Atgoffwyd yr aelodau fod y rhaglen yn gymhleth ac yn ddibynnol ar adnoddau dynol i'w chyflawni.

Tynnwyd sylw at rai o'r heriau sy'n cael eu hwynebu ar hyn o bryd, gan gynnwys: recriwtio adnoddau a'r gallu i ddenu staff o fewn y farchnad bresennol, a chaffael. Eglurwyd hefyd fod trafodaeth ynghylch y Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a Chyngor Gwynedd yn parhau. Fodd bynnag, diweddarwyd bod Arweinydd Polisi wedi'i benodi i Uchelgais Gogledd Cymru i leddfu rhai o'r heriau hyn.

Eglurwyd bod y cynllun ar gyfer 2026/27 yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd a bydd unrhyw beth na chafodd ei gyflawni yn 2025/26 yn trosglwyddo i'r rhaglen newydd. Esboniwyd bod blaenoriaethu'r gwaith hwn yn hanfodol a bod cyflawni'r rhaglen yn seiliedig ar gydymffurfiaeth, cyllid, a chapasiti staff.

Amlygwyd bod adnoddau contractau yn cael eu monitro'n gyson. Nodwyd goblygiad ariannol, lle gallai fod angen gofyn am gyllid pellach ar gyfer prosiectau gan y CBC lle nad yw cyllid eisoes wedi'i sicrhau yn y cyllidebau neu lle mae'r cyllid grant gan Lywodraeth Cymru eisoes wedi'i wario.

Diolchwyd i'r swyddogion am yr adroddiad, ac atgoffwyd yr Aelodau bod problemau ynghylch recriwtio a chadw staff yn parhau yn broblem ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru ac ar draws y wlad.

## 9. CRONFA TWF LLEOL YNG NGHYMRU – CYNLLUNIO AR GYFER BLWYDDYN DROSIANNOL (2026/27) GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dylan Griffiths, Rheolwr, Cronfa Ffyniant Gyffredin Gogledd Cymru (Rheolwr, Gwasanaeth Datblygu Economaidd) Cyngor Gwynedd.

**PENDERFYNWYD:**

- Awdurdodi Is-bwyllgor Lles Economaidd y Cyd-bwyllgor Corfforaethol i fonitro cyflwyno blwyddyn bontio'r Gronfa Twf Lleol (2026/27) ac i arwain y gwaith o baratoi ar gyfer trosglwyddo'r Gronfa i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol o 2027/28 ymlaen.

- Cymeradwyo'r bwriad i gynnal y dull gweithredu a'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru — gan gynnwys rôl Cyngor Gwynedd fel awdurdod lleol arweiniol — ar gyfer blwyddyn bontio'r Gronfa Twf Lleol yn 2026/27, a chyflwyno cynllun i'r perwyl hwn i Lywodraeth Cymru.

- Awdurdodi'r defnydd o'r cyllid a ddarperir i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol i baratoi ar gyfer cyflwyno'r Gronfa Twf Lleol y tu hwnt i 2026/27, gan weithio ar y cyd gydag awdurdodau lleol a phartneriaid i gynhyrchu cynigion y rhanbarth.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan amlygu mai 2025/26 yw blwyddyn olaf y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF). Nodwyd bod yr SPF wedi darparu bron i £169 miliwn i gefnogi datblygiad

economaidd a chymunedol yng Ngogledd Cymru ers 2022, ond o'r 1af Ebrill 2026 bydd Cronfa Twf Lleol (LGF) yn cymryd ei le. Esboniwyd y bydd yr LGF yn cael eu cyllido am gyfnod o dair blynedd, gyda'r gobaith gan Lywodraeth Cymru ei fod yn parhau tu hwnt i hynny.

Eglurwyd bod symudiad o SPF i LGF yn cynnwys llawer o newidiadau i fwriad ag i drefn ar gyfer yr arian, gan gynnwys y bydd Llywodraeth y DU yn rhoi cyllid LGF i Lywodraeth Cymru, sydd, yn ei dro, yn bwriadu trosglwyddo'r cyllid i'r rhanbarthau yng Nghymru. Ychwanegwyd bydd bwriad i ganolbwyntio llawer mwy ar sicrhau twf.

Esboniwyd bod Llywodraeth Cymru yn dymuno i'r awdurdodau lleol arweiniol, sef Cyngor Gwynedd yng Ngogledd Cymru, barhau yn eu rôl ar gyfer y tymor bir. Ymhelaethwyd bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu dyrannu'r rhan fwyaf o'r cyllid i'r CBC o 2027/28 ymlaen, a bydd arian ychwanegol yn dod i'r CBC yn 2026/27 er mwyn cynllunio a pharatoi.

Nodwyd bod cyfansoddiad yr arian yn newid yn sylweddol, gan fod yn symud o fod yn bennaf yn arian refeniw mewn natur i fod yn arian cyfalaf yn bennaf. Hysbyswyd bod newid wedi'i bod i'r swm sydd wedi'i gyflwyno yn adran 4.12 o'r adroddiad yn dilyn camgymeriad gan Lywodraeth Cymru. Nodwyd bod yr adroddiad yn nodi swm o £35.69 miliwn, ond mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau mai £33.78 miliwn yw'r swm cywir, gan nodi gostyngiad o tua £1.9 miliwn.

Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i baratoi cynllun gweithredu ar gyfer blwyddyn gyntaf y Gronfa, wrth weithio ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd, swyddogion o'r awdurdodau lleol dros y rhanbarth, swyddogion o'r CBC, a swyddogion o Lywodraeth Cymru. Pwysleisiwyd mai bwriad Cyngor Gwynedd yw cael trefn mor gyson â phosib i'r dull sydd wedi'i ddilyn ar gyfer yr SPF. Amlygwyd mai awgrym Cyngor Gwynedd ydi parhau i roi penderfyniadau i'r awdurdodau lleol, sicrhau bod awdurdodau lleol yn elwa ar yr adnoddau sydd ar gael iddynt, a bod unrhyw ddewis yn ymwneud efo'r gwaith rhanbarthol yn cael eu gwneud ar sail dewis y rhanbarthau.

Ychwanegwyd pan fydd cynllun gweithredu wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru, bydd rhaid sefydlu cytundeb newydd rhwng y siroedd.

Mynegwyd pryder am benderfyniad Llywodraeth Cymru i ddyrannu'r cyllid trwy'r CBC o 2027/28 ymlaen. Nodwyd nad yw hyn yn adlewyrchiad ar y CBC, ond yn hytrach yn gred cryf mewn datganoli ac yn gred bod anfon arian i'r CBC yn lle'r awdurdodau lleol yn tynnu pwerau gwneud penderfyniadau oddi ar yr awdurdodau lleol. Gofynnwyd am farn y Swyddog Monitro, ynghylch pa hawl sydd gan Lywodraeth Cymru i wneud penderfyniadau ariannol ar gyfer y dyfodol o ystyried Etholiad Senedd ym mis Mai 2026.

Eglurwyd gan fod y cyllid yn dod o Lywodraeth Cymru, dewis y Llywodraeth yw penderfynu sut mae'r arian yn cael ei ddyrannu. Nodwyd os bydd newid gweinyddiaeth yn digwydd yn dilyn Etholiad Senedd ym mis Mai, yna gall y dull ariannu newid hefyd o bosib gan efallai beidio cynnwys corff rhanbarthol fel y CBC yn y broses neu gall newid i ba raddau y mae'r CBC yn ymwneud â'i swyddogaethau statudol sy'n ymwneud â lles economaidd.

Mynegwyd rhwystredigaeth a siom ynghylch yr anawsterau ariannol y mae awdurdodau lleol eisoes yn eu hwynebu. Gofynnwyd sut y gall camgymeriad gan Lywodraeth Cymru o

ran y gostyngiad sylweddol yn y dyraniad dangosol y LGF ar gyfer 2026/27 gael i wneud, ac os oes modd gohirio penderfyniad tan ar ôl Etholiad Senedd ym mis Mai.

Hysbyswyd yr aelodau nad oes rhwymedigaeth i dderbyn y cyllid, ond fel corff rhanbarthol sydd â mandad cyfreithiol i sicrhau lles economaidd ac yn cael cynnig yr adnodd i gyflawni'r dyletswydd statudol hynny, mae'n debygol y bydd y CBC yn wynebu goblygiadau drwy beidio â derbyn y cyllid. Nodwyd mai mater i'r CBC yw penderfynu a ddylid gohirio'r penderfyniad a'i peidio.

Amlygwyd er gwaethaf y gostyngiad cyllid, y bydd angen i'r CBC gymeradwyo'r penderfyniad a geisir er mwyn osgoi unrhyw oblygiadau posibl. Yn ogystal, nodwyd bod yn rhaid i'r CBC fod yn ystyriol o sut mae Llywodraeth bresennol Cymru yn gweithredu, a chyfrifoldeb y CBC yw gwneud y gorau y gallent gyda'r adnoddau sydd ganddynt.

Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd wedi cael eu hysbysu yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru mai camgymeriad syml yw'r swm anghywir yn adran 4.12 o'r adroddiad, gan fod Llywodraeth Cymru wedi gweithio allan y dosbarthiad rhwng rhanbarthau Cymru ar y sail anghywir.

Atgoffwyd yr aelodau fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi £200,000 i'r CBC yn 2026/27 i fwrw ymlaen gyda'r gwaith yma. Awgrymwyd y gallai'r CBC chwilio am ffordd o ymgysylltu â'r awdurdodau lleol unigol er mwyn cyd-ddatblygu a chyd-weithio.

Diolchwyd am yr adroddiad.

## 10. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS 2026/27

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Statudol CBC) a Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyniwyd a chymeradwywyd Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2026/27.

**TRAFODAETH**

Esboniwyd mai pwrpas yr adroddiad yw darparu a chymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y CBC ar gyfer 2026/27.

Ymhelaethwyd y gwneir penderfyniadau rheolaeth trysorlys yn ddyddiol ac fe ddirprwyir i staff yr Adran Gyllid yng Nghyngor Gwynedd. Nodwyd ei bod yn ofynnol gweithredu yn unol â'r Strategaeth Rheolaeth Trysorlys sydd wedi ei gymeradwyo.

Nodwyd bod y Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys yn cynnwys balansau arian y CBC, y Cynllun Twf a'r Parth Buddsoddi ar gyfer 2026/27.

Ymhelaethwyd bod Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2026/27 wedi ei seilio ar Côd CIPFA a'r Canllaw ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol gan Lywodraeth Cymru ac felly yn cyflawni cyfrifoldeb cyfreithiol y CBC o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

Nodwyd mai rheolaeth trysorlys yn ymwneud â chadw digon ond nid gormodedd o arian parod i ddiwallu anghenion gwariant y CBC, gan reoli'r risgiau cysylltiedig â tharo'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion. Eglurwyd bod yr Adran Cyllid wedi derbyn cyngor arbenigol gan ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys, Arlingclose er mwyn ffurfio'r Strategaeth yma, a bod y math o fuddsoddiadau a ganiateir gan y strategaeth wedi ei nodi yn nhabl 2. Cydnabuwyd bod y rhain yn gyson gyda'r math o fuddsoddiadau mae Cyngor Gwynedd yn ei wneud, ac mae cyfyngiadau yn y swm a ganiateir ar gyfer pob sefydliad er mwyn lledaenu'r risg.

Cadarnhawyd bod y Strategaeth yma wedi ei selio bod y CBC yn fuddsoddwr ac yn benthyca'n fewnol rhwng cynlluniau os bydd angen. Esboniwyd os bydd yr Adran Cyllid yn adnabod yr angen i fenthyca'n allanol, a hynny os bydd cynlluniau'n dechrau gwario cyn i'r arian grant llywodraeth gyrraedd, y byddant yn paratoi strategaeth ddiwygiedig ond nid yw hyn yn debygol.

Dechreuodd y cyfarfod am 13:30 a daeth i ben am 14:20.

____________________________________

(Cadeirydd)

Eitem 7

## CALENDR CYFARFODYDD 2026-27

| Pwyllgor | Amser y cyfarfod | Meh 2026 | Gorff 2026 | Awst 2026 | Medi 2026 | Hyd 2026 | Tach 2026 | Rhag 2026 | Ion 2027 | Chwe 2027 | Maw 2027 | Ebr 2027 | Mai 2027 | Meh 2027 | Gorff 2027 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyd-bwyllgor Corfforedig | Dydd Gwener am 13:30 | 19 | | | 25 | | 20 | | 29 | | 5 | | | | 9 |
| Is-bwyllgor Lles Economaidd | Dydd Gwener am 09:30 | 12 | 17 | | | 2 | 13 | 11 | | 5 | 12 | | | | 16 |
| Is-bwyllgor Cynllunio Strategol | Dydd Llun am 14:00 | 29 | | | 14 | | 9 | | 18 | | | | | | 19 |
| Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol | Dydd Llun am 14:00 | | 13 | | | | 2 | | | 1 | | | | | 12 |
| Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | Dydd Mawrth am 09:30 | 4 | | | 15 | | | 15 | | | 19 | | | | |
| Is-bwyllgor Safonau | i'w gadarnhau | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu | i'w gadarnhau | | | | | | | | | | | | | | |
| Pwyllgor Penodiadau | Yn ôl yr angen | | | | | | | | | | | | | | |

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

Eitem 8

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

19 Mehefin 2026

| | |
|---|---|
| TEITL: | Cynllunio Corfforaethol |
| AWDUR: | Alwen Williams, Prif Weithredwr |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw diweddaru'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar y gwaith o ddatblygu Cynllun Corfforaethol, gan gynnwys y paratoadau ar gyfer trosglwyddo i reoli y Gronfa Twf Lleol o Ebrill 2027.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Cymeradwyo'r dull o Gynllunio Corfforaethol fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

2.2. Dirprwyo i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd i fonitro cyflawni'r ffrydiau gwaith Cynllunio Corfforaethol er mwyn cynnal cyflymder cyflawni.

2.3. Awdurdodi defnyddio'r cyllid a ddarperir i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol i baratoi ar gyfer cyflawni'r Gronfa Twf Lleol y tu hwnt i 2026/27, gan weithio ar y cyd ag awdurdodau lleol a phartneriaid i gyd-gynhyrchu cynigion y rhanbarth.

## 3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Fel amlinellir yn yr adroddiad.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae angen Cynllunio Corfforaethol ar gyfer y Cyd-Bwyllgor Corfforedig, ar gyfer darparu fframwaith glir i weithredu, blaenoriaethu adnoddau ac dangos atebolrwydd.

4.2. Fel endid newydd, mae angen cynllun strwythuredig ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig i gydlynu gweithgaredd, ymgysylltu â phartneriaid, bodloni dyletswyddau cyfreithiol a llesiant, a nodi sut y bydd uchelgeisiau rhanbarthol yn cael eu cyfieithu i gyflawni ymarferol.

4.3. Yn ychwanegol mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bwriad i'r Cyd-Bwyllgorau yng Nghymru gymryd atebolrwydd rhanbarthol ar gyfer rheoli y Gronfa Dwf Leol o 2027/28 ymlaen (fel amlinellir yn y Cynllun Buddsoddi Cenedlaethol gytunwyd gyda Llywodraeth y DU). Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £200,000 i Uchelgais Gogledd Cymru i:

- Gynhyrchu Cynllun Twf Rhanbarthol i gefnogi cynllunio a chyflawni y Gronfa Dwf Leol ar gyfer y rhanbarth.
- Cefnogi meithrin gallu perthnasol a threfniadau partneriaeth wrth ddatblygu'r Cynllun Twf Rhanbarthol a'r paratoadau cysylltiedig i'w gweithredu o fis Ebrill 2027 ymlaen.

4.4. Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi adnabod nifer o elfennau allweddol sy'n ofynnol ar gyfer cynllunio corfforaethol:

- Cynllun Corfforaethol – ar gyfer gosod y weledigaeth, blaenoriaethau ac gweithredoedd.
- Datganiad o weledigaeth – i osod Uchelgais a chyfeiriad hirdymor ar gyfer y rhanbarth.
- Datganiad ac amcanion lles – i fodloni dyletswyddau o dan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Cynllun Twf Rhanbarthol 10 mlynedd fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru, yn gosod allan:
  - darparu gweledigaeth hir-dymor (10 mlynedd), gan ddisgrifio sut mae cronfeydd presennol ac buddsoddwyr yn cyfrannu.
  - Sut bwriedir i fuddsoddiad drwy'r Gronfa Dwf Lleol gael ei ddefnyddio i gyfarch bylchau ac ychwanegu gwerth ar gyfer cyflawni y weledigaeth, gan weithio fel rhan o'r tirwedd buddsoddi ehangach er mwyn gosod allan portffolio o ymyraethau wedi targedu a blaenoriaethu ar gyfer cael ei ariannu gan y Gronfa Dwf Lleol.

4.5. Er mwyn cynnal y cyflymder cyflawni sy'n ofynnol ar y Gronfa Twf Lleol, cynigir dirprwyo i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd i fonitro cyflawni'r ffrydiau gwaith Cynllunio Corfforaethol, gydag unrhyw gymeradwyaethau terfynol i'w cyfeirio yn ôl at y Cyd-bwyllgor Corfforaethol i'w cymeradwyo'n derfynol.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn bwriadu defnyddio'r £200,000 a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i weithio ar y cyd ag awdurdodau lleol a phartneriaid i gyd-gynhyrchu cynigion y rhanbarth a sicrhau trosglwyddiad llyfn i'r trefniadau newydd.

| | Cronfa Dwf Lleol | Grant CBC/Cronfeydd wrth gefn |
|---|---|---|
| Comisiynu partner strategol i gyd-ddatblygu'r dogfennau a amlinellir yn 4.4. | 65,000 | 35,000 |
| Capasiti rheoli prosiect ar gyfer Uchelgais Gogledd Cymru i gydlynu'r trawsnewidiad i'r trefniadau Newydd | 55,000 | |
| Cyfraniadau i Awdurdodau Lleol i gefnogi cyd-ddatblygu y Cynllun Twf Rhanbarthol (£5k yr ALl) | 30,000 | |
| Paratoi ar gyfer Blwyddyn 2 a 3 y Gronfa Twf Lleol – i gynnwys datblygu cynlluniau, Systemau ac adeiladu capasiti | 50,000 | |
| CYFANSWM | 200,000 | 35,000 |

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Nid oes goblygiadau cyfreithiol.

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Mae'r argymhellion hyn o fewn swyddogaethau a phwerau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae'r dirprwyaeth arfaethedig i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd yn briodol i'r graddau y mae'n ymwneud â monitro cyflawniad y ffrydiau gwaith cynllunio corfforaethol. Dylid cadw unrhyw gymeradwyaeth derfynol o'r Cynllun Corfforaethol ei hun i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, neu ei hadrodd yn ôl iddo, i'w phenderfynu, fel y nodir yn yr adroddiad. Wrth ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Twf Rhanbarthol, bydd angen i'r Cyd-bwyllgor sicrhau cydymffurfiaeth â'i ddyletswyddau statudol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, dyletswyddau cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg, egwyddorion llywodraethu'r sector cyhoeddus, ac unrhyw ofynion sy'n gysylltiedig â chyllid Llywodraeth Cymru. Dylid cynnwys ymgynghori ac ymgysylltu priodol ag awdurdodau cyfansoddol, partneriaid a rhanddeiliaid yn y rhaglen waith. Ar y sail honno, nid oes unrhyw wrthwynebiadau cyfreithiol i'r argymhellion, ar yr amod bod y dirprwyaeth yn cael ei thrin fel dirprwyaeth monitro a goruchwylio yn unig, a bod cymeradwyaeth derfynol y dogfennau cynllunio corfforaethol sylweddol ac unrhyw ymrwymiadau ariannol neu bolisi sylweddol yn cael eu dwyn yn ôl i'r Cyd-bwyllgor."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Mae'n hanfodol bod paratoadau'n cael eu gwneud i ymdopi â heriau'r ffrydiau gwaith Cynllunio Corfforaethol. Mae'r penderfyniad a geisir yn caniatáu i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol fwrw ymlaen â rhoi trefniadau ar waith i ddelio â'r materion hyn, ac mae'r dyraniad grantiau a ddangosir yn Adran 5 o'r adroddiad yn ffordd briodol o fwrw ymlaen â'r gwaith cynllunio hwn."

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

19 Mehefin 2026

| | |
|---|---|
| TEITL: | Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg |
| AWDUR: | Nia Medi Williams, Rheolwr Adnoddau a Gweithrediadau<br>Nia Llwyd Lewis, Rheolwr Gwasanaeth y Gymraeg a Chyfieithu |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg Uchelgais Gogledd Cymru ar gyfer y cyfnod 28/02/2025 hyd at 31/03/2026 sy'n dangos i ba raddau yr ydym wedi cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a'r gwaith a wnaed i'w bodloni.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Bod yr Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg i'w gyhoeddi.

## 3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1 Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC) yn gyrff cyhoeddus a sefydlir gan Reoliadau a wnaed dan Ran 5 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Maent yn atebol i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n gymwys ac yn berthnasol ym meysydd darparu gwasanaeth, creu polisïau, gweithrediadau, cyfathrebu a chadw cofnodion.

3.2 Yn unol a Safonau'r Gymraeg mae'n ofyniad statudol i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yw'r ddeddfwriaeth a greodd safonau'r Iaith Gymraeg. Mae'r safonau'n hyrwyddo ac yn hwyluso defnydd yr iaith Gymraeg ac yn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru. Mae'r Mesur hefyd yn gwneud y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru.

4.2 Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn destun Safonau'r Gymraeg yr un modd â'u cynghorau unigol a sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) 2021 wedi diwygio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gan ychwanegu Cyd-bwyllgorau Corfforedig at y rhestr o gyrff a chategorïau o gyrff y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r safonau fel y cânt eu gosod gan Gomisiynydd y Gymraeg.



Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

4.3 Mae'r safonau'n sicrhau cysondeb priodol a disgwyliadau clir ynghylch sut mae'n rhaid i CBC ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg i bartneriaid, rhan-ddeiliaid, a'r cyhoedd ynghyd â sut mae'n rhaid iddynt hyrwyddo defnydd yr iaith drwy ei wasanaethau.

4.4 Derbyniodd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd Hysbysiad Cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg ar Awst 16eg 2024; y dyddiad a osodwyd ar gyfer gweithredu'r Safonau oedd Chwefror 28ain 2025 yn fuan cyn trosglwyddo Swyddfa Rheoli Portffolio a Chynllun Twf Gogledd Cymru i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Dyma Adroddiad Blynyddol blwyddyn gyfan cyntaf i'w gyhoeddi yn dilyn yr Hysbysiad Cydymffurfio.

4.5 Cafodd yr Adroddiad Blynyddol (Atodiad 1) ei lunio gan Reolwr Adnoddau a Gweithrediadau a Rheolwr y Gymraeg a Gwasanaethau Chyfieithu (Cyngor Bwrdeistrefol Sir Conwy) sydd wedi monitro cydymffurfiaeth y Cyd-bwyllgor Corfforedig â Safonau y Gymraeg a'r modd yr hyrwyddwyd defnydd o'r Gymraeg ar draws Uchelgais Gogledd Cymru yn ystod 2025-26. defnydd y Gymraeg ar draws Uchelgais Gogledd Cymru yn ystod y flwyddyn.

4.6 Mae disgwyl i Uchelgais Gogledd Cymru gyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol ar ei wefan erbyn 30 Mehefin yn unol â gofynion y safonau a osodwyd. Byddem yn disgwyl cael adborth gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg am gynnwys yr Adroddiad yn ystod tymor yr hydref/gaeaf.

4.7 Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â'ch cydymffurfiad y Cyd-bwyllgor Corfforedig â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yn ystod cyfnod yr adroddiad.

4.8 Rydym yn falch o fedru adrodd am nifer o ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn a chyfeirir atynt yn yr Adroddiad Monitro. Mae sawl ymgyrch wedi golygu bod cynnydd yn nifer y cyfleoedd sydd ar gael i staff ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg a'i gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio'r sgiliau hynny mewn bywyd bob dydd. Ceir enghreifftiau penodol o'r datblygiadau yn yr atodiad, sef Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg.

4.9 Yn ystod 2026-27, ein blaenoriaethau er mwyn parhau i gydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg a datblygu defnydd o'r Gymraeg yw:

i. Cyhoeddi Polisi Dyfarnu Grantiau, yn unol â'n dyletswyddau ynghlwm â'r safonau a osodwyd ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig, a fydd yn mewnoli proses o ystyried pa effaith fydd gweithgaredd grant a ddyfernir yn ei gael ar yr iaith Gymraeg;
ii. Datblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol;
iii. Sesiwn briffio mewnol ar gyfer staff ar Orffennaf 13eg, 2026 ynglŷn â'n dyletswyddau i gydymffurfio â'r safonau a osodwyd ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig .

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1 Dim.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1 Fel y nodwyd ym mharagraff 3.1, mae cydymffurfio â safonau'r Gymraeg yn ofyn cyfreithiol ar y Cyd-Bwyllgor Corfforedig fel corff cyhoeddus.

---

## YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

“Mae Safonau'r Iaith Gymraeg yn rhwymedigaeth statudol ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Felly, mae paratoi, cymeradwyo a chyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol yn elfen bwysig o fframwaith cydymffurfio cyfreithiol y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac yn darparu tryloywder ynghylch i ba raddau y mae'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol wedi cydymffurfio â'r safonau cymwys yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r adroddiad yn nodi'r cyd-destun statudol yn briodol, gan gynnwys Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, cymhwyso Safonau'r Iaith Gymraeg i Gyd-bwyllgorau Corfforaethol, yr Hysbysiad Cydymffurfio a gyhoeddwyd i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, a'r gofyniad i gyhoeddi Adroddiad Blynyddol. Felly, mae'r argymhelliad bod y Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol i'w gyhoeddi yn briodol. Dylai'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyhoeddi erbyn y dyddiad cau gofynnol a bod unrhyw adborth a dderbynnir gan Gomisiynydd y Gymraeg yn cael ei ystyried a, lle bo angen, ei gynnwys yn rhaglen waith y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyfer cydymffurfio â'r iaith Gymraeg.”

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Dim sylwadau i’w hychwanegu i’r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.”

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg Uchelgais Gogledd Cymru

28/02/2025 - 31/03/2026

Paratowyd yn unol â gofynion

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Ebrill 2026

This document is also available in English.

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1.0** | **Cyflwyniad** | **3** |
| **2.0** | **Cefndir / Cyd-destun yr Adroddiad** | **4** |
| **3.0** | **Crynodeb** | **5** |
| 3.1 | Cynnydd / Datblygiadau yn ystod y flwyddyn | 5 |
| 3.2 | Edrych i'r Dyfodol | 5 |
| **4.0** | **Gwybodaeth am y flwyddyn 2025-2026** | **7** |
| 4.1 | Y Cyfryngau Cymdeithasol | 7 |
| 4.2 | Logo Iaith Gwaith | 7 |
| 4.3 | Gwaith Cyfieithu | 7 |
| 4.4 | Cyfieithu ar y pryd | 7 |
| 4.5 | Annog siaradwyr Cymraeg | 7 |
| 4.6 | Gwersi Cymraeg | 7 |
| 4.7 | Sgiliau Cymraeg y Staff | 8 |
| 4.8 | Recriwtio - Swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn | 9 |
| 4.9 | Diweddariad am ein gwahanol ddatblygiadau | 10 |
| 4.10 | Hyfforddiant Cymraeg a Gyflawnwyd | 12 |
| **5.0.** | **Cadw Cofnodion** | **14** |
| 5.1 | Cwynion | 14 |
| 5.2 | Ymchwiliadau gan Gomisiynydd y Gymraeg | 14 |
| **6.0** | **Casgliad** | **15** |

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw dangos i ba raddau yr ydym wedi cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ystod 2025-2026, a'r gwaith a wnaed i'w bodloni.

1.2 Rydym yn hynod falch o'r llu o ddatblygiadau a llwyddiannau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf hon o weithredu Safonau'r Gymraeg - cyflwynir rhagor o wybodaeth amdanynt yng nghrombil y ddogfen hon.

## 2.0 Cefndir / Cyd-destun yr Adroddiad

2.1 Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, na fydd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

2.2 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu fframwaith cyfreithiol i osod dyletswydd ar Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, ymhlith sefydliadau eraill, i gydymffurfio â Safonau yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 157 o Safonau i gydymffurfio â nhw yn y meysydd a ganlyn – Cyflenwi Gwasanaethau, Gweithredu, Llunio Polisi, Hybu, a Chadw Cofnodion. Mae'r Safonau i'w gweld ar ein gwefan.

2.3 Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg (gan ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg mewn bywyd bob dydd).

2.4 Pwrpas y Safonau yw:

- rhoi mwy o eglurder i sefydliadau ar eu dyletswyddau am y Gymraeg
- rhoi mwy o eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y medrant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg
- sicrhau mwy o gysondeb o wasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd.

2.5 Ers sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, rydym wedi parhau i ddefnyddio trefniadau a gwahanol bolisïau Cyngor Gwynedd. Ar ddyddiad y trosglwyddo, mabwysiadodd y Cyd-Bwyllgor bolisïau Cyngor Gwynedd (fel y cyn gorff lletya), bydd gwaith yn parhau gan y Cyd-Bwyllgor i ddatblygu a mabwysiadu trefniadau a pholisïau wrth i'r sefydliad ddatblygu. Mae Cyngor Gwynedd yn parhau i ddarparu gwasanaethau i Gyd-Bwyllgor y Gogledd drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth. Mae Safonau'r Gymraeg bellach yn disodli ein Cynllun Iaith Gymraeg.

2.6 Mae'r adroddiad monitro hwn yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed yn erbyn camau gweithredu a thargedau'n deillio o Safonau'r Gymraeg. Casglwyd y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr adroddiad hwn o ganlyniad i fonitro parhaus o'n holl waith.

## 2.7 Atebolrwydd

2.7.1 Y Rheolwr Adnoddau a Gweithrediadau a Rheolwr Gwasanaeth y Gymraeg a Chyfieithu sy'n gyfrifol am ysgrifennu'r ddogfen hon. Mae hi'n cael ei chyflwyno gerbron Gweithgor Safonau'r Gymraeg ac Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd er mwyn ei chymeradwyo.

2.7.2 Ar ôl ei chymeradwyo, mae'r ddogfen hon ar gael i'r cyhoedd yn swyddfa Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ac ar ei wefan. Byddwn hefyd yn rhoi gwybod i'r cyhoedd amdani drwy gyhoeddi gwybodaeth ar ein cyfryngau cymdeithasol.

## 3.0 Crynodeb

## 3.1 Cynnydd / Datblygiadau yn ystod y flwyddyn

3.1.1 Dros y flwyddyn ddiwethaf, buom yn gweithredu Safonau'r Gymraeg ac er ein bod yn gweithredu nifer fawr o'r Safonau eisoes ar adeg eu cyhoeddi, rydym yn falch o fedru adrodd ar nifer o ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn. Mae sawl ymgyrch wedi golygu bod cynnydd yn nifer y cyfleoedd sydd ar gael i staff a'r cyhoedd ledled Gogledd Cymru ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg a'i gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio'r sgiliau hynny mewn bywyd bob dydd. Dyma grynodeb ohonynt:

**a)** **Cofnod o sgiliau Cymraeg y staff** – Eleni, am y tro cyntaf, fe wnaethom ddechrau cofnodi sgiliau Cymraeg ein staff yn dilyn lefelau'r CEFR (Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd). Rydym yn falch iawn o nodi bod 54% o'n staff yn siarad Cymraeg yn rhugl gyda 40% arall yn dysgu Cymraeg neu yn meddu ar rywfaint o sgiliau Cymraeg. Dim ond 2 aelod o staff (6%) sy'n meddu ar ddim sgiliau Cymraeg o gwbl o ran siarad. Mae'n braf gweld bod gan bob aelod o staff ychydig ddealltwriaeth o'r Gymraeg gyda 100% o'r staff yn nodi gallu o ran dealltwriaeth o'r Gymraeg o A1 i C2, gyda'r mwyafrif llethol (57% o'r staff) yn nodi eu lefel fel C2 sef dealltwriaeth llwyr o'r Gymraeg. O ran sgiliau darllen Cymraeg, mae 54% o'n staff yn meddu ar sgiliau darllen Cymraeg ym mhob cyd-destun gyda dim ond 1 aelod o staff heb unrhyw allu o ran y Gymraeg. Rhaid canmol ein staff sy'n dysgu Cymraeg neu'n ceisio defnyddio'r Gymraeg sydd ganddynt yn rheolaidd hefyd.

**b)** **Esbonio sut yr ydym yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau** – Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom gyhoeddi dogfen ar ein gwefan sy'n esbonio sut yr ydym yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. Gellir gweld y ddogfen yma.

**c)** **Cwynion am y Gymraeg** – Mae posib i unrhyw un wneud cwyn yn ymwneud â'n cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg neu fethiant ar ein rhan i ddarparu gwasanaeth dwyieithog. Eleni, rydym wedi diweddaru ein gweithdrefn gwyno mewn perthynas â'r Safonau ac wedi tynnu sylw ati yma.

**ch)** **Cydweithio a Dylanwadu** – O ganlyniad i drafodaethau a chydweithio gyda Business News Wales a 'Find a Grant' mae deunydd Uchelgais Gogledd Cymru bellach ar gael yn ddwyieithog ar eu gwefannau. Buom yn rhan flaenllaw o sicrhau bod y ddarpariaeth ar gael yn ddwyieithog ac rydym yn arbennig o falch o'r datblygiadau hyn.

## 3.2 Edrych i'r Dyfodol

3.2.1 Yn ystod y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu datblygu'r materion a ganlyn, ymysg llu o ddatblygiadau llai:

**a)** **Polisi Dyfarnu Grantiau** – Er bod gennym broses ddyfarnu grantiau eisoes, rydym angen ail-edrych ar hyn yn sgil gofynion Safonau'r Gymraeg. Rydym newydd benodi Uwch Swyddog Polisi Corfforaethol ac un o'i thasgau cyntaf fydd mynd i'r afael â'r safon hon.

**b)** **Polisi defnyddio'r Gymraeg yn fewnol** – Ar hyn o bryd, rydym yn parhau i ddilyn polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg Cyngor Gwynedd, ond yn ystod y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu llunio polisi newydd ein hunain.

**c)** **Sesiwn Ymwybyddiaeth Iaith** - Rydym yn edrych ymlaen yn arw at ein Sesiwn Ymwybyddiaeth Iaith sydd eisoes ar y gweill ar gyfer ein tîm cyfan. Bydd yn gyfle i atgoffa ein staff am bwysigrwydd dwyieithrwydd, rhoi ychydig o wybodaeth am hanes yr iaith a chyfle i sôn am bwysigrwydd Safonau'r Gymraeg hefyd.

## 4.0 Gwybodaeth am y flwyddyn 2025-2026

### 4.1 Y Cyfryngau Cymdeithasol

4.1.1 Rydym yn postio'n ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf ar bob un o'n cyfrifon cymdeithasol ar wahân i'n cyfrif X lle bo'r cyfrif Cymraeg a Saesneg ar wahân ond yn postio'n y ddwy iaith ar yr un pryd bob amser. Mae'r cyfrifon yn postio'n rheolaidd, ac yn rhannu cynnwys gwreiddiol yn ogystal â gwybodaeth gan sefydliadau eraill.

### 4.2 Logo Iaith Gwaith

4.2.1 Mae staff sy'n medru'r Gymraeg yn cynnwys logo ar waelod eu llofnod e-bost i adael i gwsmeriaid a chydweithwyr wybod eu bod yn medru'r Gymraeg.

### 4.3 Gwaith Cyfieithu

4.3.1 Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer y geiriau ydym ni wedi'u cyfieithu wedi parhau i gynyddu. Mae ein deunydd ysgrifenedig ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg bob amser, boed ar gyfer y cyhoedd neu'n fewnol ar gyfer staff. Mae staff y Gwasanaeth Cyfieithu bob amser wrth law i gynorthwyo staff gyda chyfieithu eu dogfennau neu brawfddarllen eu cyfieithiadau os ydynt wedi llunio'r Gymraeg eu hunain ac eisiau gwirio ei fod yn gywir.

### 4.4 Cyfieithu ar y pryd

4.4.1 Mae ein cyfarfodydd pwyllgorau cyhoeddus fel arfer ar-lein gydag ambell eithriad lle mae'r rhain wedi cael eu cynnal o aml-leoliad. Mae cyfieithu ar y pryd ar gael yn y rhan fwyaf o'n cyfarfodydd pan fo angen.

### 4.5 Annog siaradwyr Cymraeg

4.5.1 Rydym bob amser yn annog ein staff i ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddynt ac rydym hefyd yn croesawu defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd. Mae cyfieithydd ar y pryd ar gael yn y rhan fwyaf o'n cyfarfodydd allanol er mwyn galluogi i unrhyw un gymryd rhan yn Gymraeg.

### 4.6 Gwersi Cymraeg

4.6.1 Rydym yn hynod falch o 4 aelod o staff sy'n dysgu Cymraeg ar lefelau Mynediad 1 a 2. Mae'r 4 yn mynychu gwersi wythnosol er mwyn datblygu eu sgiliau Cymraeg. Dymunwn bob lwc iddynt ar eu taith i ddysgu Cymraeg.

## 4.7 Sgiliau Cymraeg y Staff

4.7.1 Mae'r staff wedi defnyddio gwybodaeth o'r CEFR i nodi eu sgiliau Cymraeg. Dyma'r tro cyntaf i ni gasglu gwybodaeth am sgiliau Cymraeg ein staff gan ddefnyddio canllawiau'r CEFR.

**Allwedd i'r Lefelau:**
A0 = Dim gallu o ran y Gymraeg
A1 = Sgiliau Lefel Mynediad
A2 = Sgiliau Lefel Sylfaen
B1 = Sgiliau Lefel Canolradd 1
B2 = Sgiliau Lefel Canolradd 2
C1 = Sgiliau Lefel Uwch
C2 = Rhugl yn y Gymraeg

4.7.2 Rydym yn cyflogi cyfanswm o 35 o staff. Dyma fanylion sgiliau Cymraeg y staff:

### Sgiliau Cymraeg ein Staff:

| **Siarad** | | |
|---|---|---|
| Lefel | Nifer y staff | % |
| Lefel A0 | 2 | 6% |
| Lefel A1 | 6 | 17% |
| Lefel A2 | 4 | 11% |
| Lefel B1 | 0 | 0 |
| Lefel B2 | 1 | 3% |
| Lefel C1 | 3 | 9% |
| Lefel C2 | 19 | 54% |
| **Cyfanswm** | **35** | |

| **Dealltwriaeth** | | |
|---|---|---|
| Lefel | Nifer y staff | % |
| Lefel A0 | 0 | 0% |
| Lefel A1 | 6 | 17 % |
| Lefel A2 | 3 | 9% |
| Lefel B1 | 2 | 6% |
| Lefel B2 | 1 | 3% |
| Lefel C1 | 3 | 9% |
| Lefel C2 | 20 | 57 % |
| **Cyfanswm** | **35** | |

| **Darllen** | | |
|---|---|---|
| Lefel | Nifer y staff | % |
| Lefel A0 | 1 | 3% |
| Lefel A1 | 5 | 14% |
| Lefel A2 | 3 | 9% |
| Lefel B1 | 2 | 6% |
| Lefel B2 | 0 | 0 |
| Lefel C1 | 4 | 11% |
| Lefel C2 | 19 | 54% |
| **Cyfanswm** | **35** | |

| **Ysgrifennu** | | |
|---|---|---|
| Lefel | Nifer y staff | % |
| Lefel A0 | 3 | 9% |
| Lefel A1 | 5 | 14% |
| Lefel A2 | 4 | 11% |
| Lefel B1 | 1 | 3% |
| Lefel B2 | 2 | 6% |
| Lefel C1 | 2 | 6% |
| Lefel C2 | 18 | 51% |
| **Cyfanswm** | **35** | |

4.7.3 Rydym yn falch iawn o nodi bod 54% o'n staff yn siarad Cymraeg yn rhugl gyda 40% arall yn dysgu Cymraeg neu yn meddu ar rywfaint o sgiliau Cymraeg. Dim ond 2 aelod o staff (6%) sy'n meddu ar ddim sgiliau Cymraeg o gwbl o ran siarad.

4.7.4 Mae'n braf gweld bod gan bob aelod o staff ychydig ddealltwriaeth o'r Gymraeg gyda 100% o'r staff yn nodi gallu o ran dealltwriaeth o'r Gymraeg o A1 i C2.

4.7.5 Unwaith eto, o ran sgiliau darllen Cymraeg, mae 54% o'n staff yn meddu ar sgiliau darllen Cymraeg ym mhob cyd-destun gyda dim ond 1 aelod o staff heb unrhyw allu o ran y Gymraeg.

4.7.6 Mae'n galonogol iawn gweld cynifer yn nodi eu bod yn hollol gyfforddus yn ysgrifennu deunydd yn Gymraeg gyda 51% o'r staff wedi nodi lefel C2. Mae hefyd yn wych gweld bod cymaint o staff wedi nodi peth gallu o ran ysgrifennu

yn Gymraeg hefyd gyda dim ond 9% (3 aelod staff) yn nodi nad ydynt yn meddu ar unrhyw sgiliau ysgrifennu Cymraeg o gwbl.

4.7.7 Rhaid canmol ein staff sy'n dysgu Cymraeg neu'n ceisio defnyddio'r Gymraeg sydd ganddynt yn rheolaidd hefyd.

## 4.8 Recriwtio - Swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn

4.8.1 Mae pob swydd sy'n cael ei hysbysebu gennym yn cynnwys dynodiad Cymraeg yn hanfodol neu Gymraeg yn ddymunol, ond ymhelaethir ar y brawddegau hyn er mwyn i'r sawl sy'n bwriadu ymgeisio am y swydd wybod yn union i ba raddau mae angen sgiliau Cymraeg. Mae'r brawddegau hyn yn cael eu teilwra wrth hysbysebu ac felly'n benodol i'r swydd sy'n cael ei hysbysebu.

4.8.2 Dyma fanylion am nifer/canran y swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn lle'r oedd y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol; a nifer/canran y swyddi ym mhob categori lle penodwyd siaradwyr Cymraeg.

| Dynodiad | Nifer a % fesul categori iaith | Nifer a % y swyddi lle penodwyd siaradwyr Cymraeg |
|---|---|---|
| Hanfodol | 1 swydd<br>(9%) | O'r 1 swydd a recriwtiwyd iddynt, penodwyd siaradwr Cymraeg (lefel C2) i 1 ohonynt (100%). |
| Dymunol | 10 swydd<br>(91%) | O'r 9 swydd y recriwtiwyd iddynt, roedd 7 swyddog yn siarad Cymraeg yn rhugl (78%).<br><br>Hyd yn hyn, ni phenodwyd unrhyw un i 1 o'r swyddi hyn gan fod y broses recriwtio yn parhau. |
| **CYFANSWM YM MHOB DYNODIAD** | 11 swydd | Felly, o'r 10 swydd y recriwtiwyd iddynt, penodwyd cyfanswm o 8 o siaradwyr Cymraeg rhugl, sef canran o 80%. |

**4.8.4** Ar gyfer pob swydd a hysbysebir, nodir a yw'r gofynion canlynol yn hanfodol neu'n ddymunol yn Gymraeg drwy gynnwys y wybodaeth a ganlyn:

- Gwrando a Siarad – Yn gallu ymdrin â holl agweddau'r swydd yn llafar mewn modd hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Darllen a Deall – Yn gallu defnyddio a dehongli unrhyw wybodaeth yn gywir o amrywiaeth eang o ffynonellau, yn y Gymraeg ac yn Saesneg, er mwyn gallu ymdrin â phob agwedd o'r swydd.
- Ysgrifennu – Yn gallu cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig yn hollol hyderus yn y Gymraeg ac yn Saesneg gan ddefnyddio'r ieithwedd a'r arddull fwyaf priodol i gwrdd ag anghenion y darllenydd.
- Dealltwriaeth o bwysigrwydd yr iaith Gymraeg i'r rhanbarth a pharodrwydd i ddatblygu a gwella eu sgiliau iaith Gymraeg.

### 4.9 Diweddariad am ein gwahanol ddatblygiadau:

4.9.1 Mae ein gweithgareddau a'n datblygiadau i gyd yn cael eu cynnal yn Gymraeg ac yn Saesneg gyda'r bwriad o greu Gogledd Cymru bywiog, cynaliadwy a gwydn. Dyma ddiweddariad am yr hyn fu ar y gweill gennym yn ystod 2025-2026.

**a) Lansio Cronfa Ynni Glân, Uchelgais Gogledd Cymru**

Lansiwyd y Gronfa Ynni Glân yng Ngorffennaf 2025 mewn digwyddiad yng Nghanolfan Beirianneg Coleg Llandrillo y Rhyl. Roedd y lansiad yn cynnwys areithiau yn y Gymraeg a Saesneg gan siaradwyr gan gynnwys Alwen Williams (Prif Weithredwr, Uchelgais Gogledd Cymru), Cynghorydd Gary Pritchard (Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn ac Aelod Arweiniol Rhaglen Ynni Carbon Isel, Uchelgais Gogledd Cymru), Rebecca Evans (Ysgrifennydd Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio), ynghyd â darparwyr y Cronfeydd. Mae'r gronfa gwerth £24.6m efo'r nod o gyflymu'r gwaith o drosglwyddo'r rhanbarth i economi carbon isel. Bydd y gronfa yn darparu cymorth ariannol hanfodol yn bennaf i fusnesau a sefydliadau'r sector gwirfoddol, sydd eisiau darparu prosiectau ynni glân neu ddatgarboneiddio.

**b) Datblygu Pecyn Cymorth Sgiliau Digidol**

Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi datblygu Pecyn Cymorth Sgiliau Digidol newydd ar gyfer cyflogwyr yn ein rhanbarth, sy'n ganllaw ymarferol, hawdd ei ddefnyddio, gyda'r bwriad o helpu arweinwyr busnes i lywio'r maes uwchsgilio digidol, sy'n aml yn gymhleth. Cafodd ei ddatblygu i ymateb yn uniongyrchol i adborth sy'n amlygu anghenion cyflogwyr.

**c) Arddangosfa o arloesedd a chydweithrediad arloesol**

Cynhaliwyd arddangosfa o arloesedd a chydweithrediad arloesol yn Sioe Frenhinol Amaethyddol Cymru ddydd Llun 21 Gorffennaf 2025, wrth i Dyfu Canolbarth Cymru a'i bartneriaid (Uchelgais Gogledd Cymru, Arloesi Aber, M-Sparc, Canolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch (AMRC) Cymru) gynnal digwyddiad 'Ysgogi Cynnydd: Arloesi a Chyllid mewn Technoleg Amaeth a Thechnoleg Bwyd'.

**ch) Eisteddfod Genedlaethol 2025**

Fel rhan o Bentref Wrecsam roedd Uchelgais Gogledd Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol gyda gweithgareddau megis helfa drysor a gêm o Ogledd Cymru ar y map.

**d) Agoriad swyddogol Adeilad CanfodAU**

Agorwyd adeilad peirianneg arloesol yn swyddogol ym Mhrifysgol Wrecsam ym mis Tachwedd 2025. Mae'r adeilad arloesol yn atgyfnerthu gweledigaeth y Brifysgol i ddod yn brifysgol ddinesig fodern, flaenllaw yn y byd a safle Gogledd Cymru fel canolfan ar gyfer uwch weithgynhyrchu, gwerth uchel, drwy feithrin arloesedd a chynaliadwyedd drwy gydweithio agos rhwng y byd academaidd a diwydiant.

**dd) Lansiad Academi Croeso**

Mae'n gyfnod newydd i dwristiaeth a lletygarwch yng Ngogledd Cymru gyda lansiad swyddogol yr 'Academi Croeso' - partneriaeth arloesol dan arweiniad Grŵp Llandrillo Menai gyda chefnogaeth gan Uchelgais Gogledd Cymru drwy Gynllun Twf Gogledd Cymru.

Nod prosiect yr Academi Croeso yw ceisio diogelu sector twristiaeth a lletygarwch y rhanbarth ar gyfer y dyfodol drwy greu rhwydwaith cyhoeddus-preifat sy'n canolbwyntio ar gydweithio, datblygu sgiliau a datblygu cynnyrch.

Cafwyd digwyddiad lansio yn Theatr Clwyd yn yr Wyddgrug ddydd Iau 13 Tachwedd gyda chyflogwyr blaenllaw, addysgwyr, cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a DU, a phartneriaid cymunedol i ddathlu'r hunaniaeth newydd a'r weledigaeth a rennir sydd y tu ôl i'r 'Academi Croeso', a elwid gynt yn Rhwydwaith Talent Twristiaeth.

**e) Arolwg Anghenion gweithlu'r dyfodol yn y rhanbarth**

Lansiwyd arolwg i annog busnesau ledled Gogledd Cymru i leisio eu barn ar anghenion gweithlu'r dyfodol yn y rhanbarth, fel rhan o'r gwaith i ddatblygu Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth newydd ar gyfer 2026–2028. Dyddiad cau yr arolwg oedd 10 Mawrth 2026. Y nod oedd casglu mewnwelediad uniongyrchol i'r heriau sgiliau a recriwtio sy'n wynebu busnesau heddiw, a pha gefnogaeth fydd ei hangen dros y blynyddoedd nesaf.

**f) Ymgynghoriad Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol**

Cynhaliwyd Ymgynghoriad cyhoeddus o 6 wythnos ar ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

**ff) Cylchlythyr Chwarterol**

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cyhoeddi cylchlythyr dwyieithog chwarterol sy'n cael ei rannu gyda'n prif randdeiliaid ac ar gael ar ein gwefan. Uchelgais Gogledd Cymru | Newyddlenni

**g) Digwyddiad recriwtio cyn- droseddwyr**

Ym mis Ebrill 2025, arweiniodd y Tîm Sgiliau ddigwyddiad yn Venue Cymru ar gyfer cyflogwyr yn annog y rhai sydd wedi gadael y carchar a chyn-droseddwyr o HMP Berwyn i waith.

**ng) Diweddaru'n Portal Sgiliau**

Mae'r Bartneriaeth Sgiliau wedi parhau i ddatblygu y Portal Sgiliau yn ystod y flwyddyn ar gyfer cynnig y profiad gorau i'w defnyddwyr - Portal Sgiliau GC | Profiad Gwaith a Gwirfoddoli Gogledd Cymru : Portal.

**h) Cydweithio a Dylanwadu**

- **Business News Wales** – Mae gan Uchelgais Gogledd Cymru bartneriaeth barhaus gyda Business News Wales, cwmni wedi'i leoli yng Nghymru sy'n cynnig gwasanaeth cyfryngau a chyfathrebu digidol. Mae cyhoeddiadau a phodlediadau yn cael eu rhyddhau ar ei wefan. Yn ystod y flwyddyn, mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi codi'r angen ar gyfer sicrhau dwyieithrwydd y gwasanaeth. O ganlyniad i drafodaethau a chydweithio mae deunydd

Uchelgais Gogledd Cymru bellach ar gael yn ddwyieithog ar y wefan - Tudalen Proffil Uchelgais Gogledd Cymru ar Business News Wales ac Enghraifft o sut mae'r togl iaith yn gweithio ar erthyglau. Bydd y gwaith yn parhau i ddylanwadu yn ehangach ar draws y safle.

- **Find a Grant** – Yn ystod y flwyddyn mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi bod yn gweithio ar sefydlu a pharatoi ar gyfer lansio cynlluniau grantiau digidol. Yn dilyn dod ar draws yr adnodd 'Find a Grant' gan Lywodraeth y DU, oedd yn adnodd perffaith ar gyfer ein grantiau, ond nad oedd ar gael yn ddwyieithog, mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi chwarae rhan flaenllaw gan godi'r mater gyda Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gael i gwmnïau yng Nghymru. Bellach, mae ffordd ymlaen ar waith. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn lansio'r cynlluniau grant yn fuan, gyda manylion dwyieithog ar 'Find a Grant'.

## 4.10 Hyfforddiant

4.10.1 Gwelir isod fanylion am nifer y staff a gafodd hyfforddiant yn Gymraeg i lefel o gymhwyster penodol a nifer y staff a gafodd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn ystod 2025-2026.

### 4.10.2 Cyrsiau Dysgu Cymraeg

4.10.2.1 Rydym yn hynod falch o 4 aelod o staff sy'n dysgu Cymraeg ar lefelau Mynediad 1 a 2. Mae'r 4 yn mynychu gwersi wythnosol er mwyn datblygu eu sgiliau Cymraeg. Gwelir y manylion isod:

| Lefel y Cwrs | Math o Gwrs | Addas ar gyfer | Manylion | Cais | Cyfanswm wnaeth fynychu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mynediad 1** | Hunan-astudio / Wyneb yn wyneb | Y rhai sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau | Cyrsiau a gynhaliwyd rhwng mis Mawrth 2025 a mis Mawrth 2026 ar gyfer pobl sy'n dymuno dysgu Cymraeg. | Dewis personol y staff | **2** |
| **Mynediad 2** | Hunan-astudio / Wyneb yn wyneb | | | | **2** |

### 4.10.3 Amrywiol Gyrsiau a Gynigwyd / Gynhaliwyd yn Gymraeg

| Cwrs a gynigwyd | Sawl cwrs gafodd ei gynnig yn Gymraeg? | Cyfanswm wnaeth fynychu |
|---|---|---|
| Recriwtio Diogel i Reolwyr (Safon 128, (a) recriwtio a chyfweld) | Mae pob cwrs o'r fath yn cael ei gynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg drwy Gyngor Gwynedd. | Ni fu unrhyw aelod o staff ar gwrs o'r fath eleni oherwydd nad oedd galw amdano. |
| Rheoli'r Broses Gwerthuso Staff (Safon 128, (b) rheoli perfformiad) | Mae pob cwrs o'r fath yn cael ei gynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg drwy Gyngor Gwynedd. | Ni fu unrhyw aelod o staff ar gwrs o'r fath eleni oherwydd ein bod yn adolygu ein prosesau Gwerthuso. |
| Rheoli'r Broses Ddisgyblu (Safon 128, (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu) | Mae pob cwrs o'r fath yn cael ei gynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg drwy Gyngor Gwynedd. | Ni fu unrhyw aelod o staff ar gwrs o'r fath eleni oherwydd nad oedd galw amdano. |
| Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (Safon 128, (dd) iechyd a diogelwch) | Mae pob cwrs o'r fath yn cael ei gynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg drwy Gyngor Gwynedd. | Ni fu unrhyw aelod o staff ar gwrs o'r fath eleni oherwydd nad oedd galw amdano. |

### 4.10.4 Sesiwn Gyflwyno / Ymwybyddiaeth Iaith

| Dyddiad / Hyd y sesiwn | Addas ar gyfer | Manylion | Cais | Cyfanswm wnaeth fynychu |
|---|---|---|---|---|
| Amrywiol ddyddiadau yn ystod y flwyddyn | Aelodau newydd o staff | Caiff y swyddogion fanylion am weithredu Safonau'r Gymraeg, y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael ac ymwybyddiaeth a hanes y Gymraeg fel rhan o'u sesiwn gyflwyno. | Gorfodol i bob aelod newydd o staff sy'n cychwyn gweithio gyda ni | 6 |
| **CYFANSWM Y NIFER WNAETH FYNYCHU'R SESIWN** | | | | **6** |

4.10.4.1 Gwelir o'r ystadegau uchod bod 6 aelod o staff wedi cael gwybodaeth ymwybyddiaeth iaith eleni.

## 5.0 Cadw Cofnodion

### 5.1 Cwynion

5.1.1 Mae modd i'r cyhoedd wneud cwyn drwy ein gwefan.  Bydd pob cwyn yn cael ei chofnodi ar ein system gwynion.

5.1.2 Ni chafwyd yr un gŵyn yn ymwneud â'r Gymraeg yn ystod 2025-2026.

### 5.2 Ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg

5.2.1 Mae modd i'r cyhoedd gwyno'n uniongyrchol gyda Chomisiynydd y Gymraeg hefyd a lle bo'n briodol, bydd y Comisiynydd yn cychwyn ymchwiliad i'r mater.

5.2.2 Ni chafodd yr un ymchwiliad ei hanfon atom eleni.

## 6.0 Casgliad

6.1 Roedd hi'n flwyddyn brysur eleni yn rhoi nifer o ofynion Safonau'r Gymraeg ar waith.  Roedd hi hefyd yn hynod o braf gweld cymaint o ddatblygiadau a llwyddiannau yn mynd o nerth i nerth yn ystod y flwyddyn, gyda llawer mwy ar y gweill dros y flwyddyn nesaf.

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG

19 Mehefin 2026

TEITL: Polisi Canmoliaethau, Sylwadau a Chwynion

AWDUR: Alwen Williams, Prif Weithredwr, Uchelgais Gogledd Cymru

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Polisi Canmoliaethau, Sylwadau a Chwynion i'w ystyried gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

1.2 Mae'r polisi yn nodi'r dull o dderbyn, rheoli a dysgu o'r adborth a dderbyniwn.

1.3 Mae sefydlu'r polisi hwn yn cefnogi tryloywder, atebolrwydd a gwelliant parhaus.

2. PENDERFYNIADAU A GEISIR

2.1. Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig ystyried y Polisi Canmoliaethau, Sylwadau a Chwynion drafft a chymeradwyo ei fabwysiadu.

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1 Mae cael polisi cwynion clir yn lleihau'r risg o ymdrin â chwynion yn anghyson, cadw cofnodion gwael, colli cyfleoedd dysgu, uwch gyfeirio i'r Ombwdsmon heb fod angen, ac unrhyw niwed i enw da. Bydd monitro ac adrodd rheolaidd yn cefnogi dysgu sefydliadol ac yn rhoi sicrwydd i uwch reolwyr, yr Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig. Bu i'r Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y polisi ddrafft ac argymell i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig ei fabwysiadu yn ystod ei gyfarfod ar 4ydd o Fehefin 2026.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1 Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn parhau i ddatblygu ei drefniadau llywodraethu fel sefydliad sy'n datblygu.

4.2 Mae fframwaith adborth effeithiol yn sicrhau bod pryderon yn cael eu hystyried yn deg a bod yr hyn a ddysgir yn cael ei ddal.

4.3 Mae'r polisi'n adlewyrchu arferion sefydledig ar draws cyrff cyhoeddus yng Nghymru a'r DU ac yn cyd-fynd â'r chwe egwyddor ar gyfer gweinyddiaeth dda a nodir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) o dan adran 34 y Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

4.4 Bu i'r Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y polisi yn ystod ei gyfarfod ar Fehefin 4ydd 2026 a gwnaed dau sylw i gryfhau gweithdrefnau'r polisi:

i. Cynnwys cofnod rheoli dogfen ar wahân ar gyfer ffurflen adborth Canmoliaethau, Sylwadau a Chwynion sydd wedi ei atodi I'r polisi. Bydd hyn yn sicrhau bod y fersiwn gywir o'r ffurflen sy'n wynebu'r cyhoedd yn cael ei ddefnyddio, gan gynnwys ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru a gan staff a fydd yn ei rannu'n allanol gyda defnyddwyr gwasanaeth.
ii. Cadarnhawyd i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y bydd mewnflwch newydd yn cael ei greu i dderbyn canmoliaethau, sylwadau a chwynion â chyfeiriad Cymraeg (adborth@uchelgaisgogledd.cymru) a Saesneg (feedback@ambitionnorth.wales).

Mae'r polisi sy'n cael ei ystyried gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi ei ddiweddaru i gynnwys y pwyntiau a nodwyd gan yr Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## 5. SUT BYDD YR ADBORTH YN CAEL EI REOLI

5.1 Mae'r dull yn cynnwys camau datrys anffurfiol ac ymchwilio ffurfiol: Fel arfer, byddai cwynion Cam 1 yn cael eu trin gan reolwr priodol o fewn y maes gwasanaeth perthnasol. Dylai cwynion Cam 2 fel arfer gael eu hystyried gan Gyfarwyddwr neu uwch swyddog arall nad yw wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r mater y cwynwyd amdano.

5.2 Bydd cwynion yn cael eu cydnabod, eu hymchwilio'n gymesur, gan ymateb yn glir iddynt.

5.3 Bydd cwynion fel arfer yn derbyn ymateb o fewn y cyfnod a nodwyd (20 diwrnod gwaith). Fodd bynnag, pan fo angen mwy o amser, oherwydd cymhlethdod y mater neu am fod angen ymchwiliad pellach, bydd yr achwynydd yn cael ei hysbysu o fewn y cyfnod hwnnw. Byddant hefyd yn derbyn esboniad pam fod angen estyniad amser, ynghyd ag amserlen ddiwygiedig ddangosol.

5.4 Bydd y gwersi a ddysgwyd yn cael eu defnyddio i wella gwasanaethau.

## 6 LLYWODRAETHU A THROSOLWG

6.1 Bydd cwynion yn cael eu cofnodi, eu monitro a'u hadrodd i'r uwch reolwyr ac, lle bo angen, i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## 7 CYD-DESTUN DEDDFWRIAETHOL

7.1 Mae'r polisi yn cyd-fynd â deddfwriaeth allweddol gan gynnwys egwyddorion ymdrin â chwynion yn dda, fel y nodir gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, yn ogystal â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a deddfwriaeth Diogelu Data.

7.2 Mae hwn yn bolisi cwynion corfforaethol. Mae'n bwysig nodi na ddylai ddisodli na thorri ar draws prosesau statudol, cyfreithiol, adnoddau dynol, canu'r gloch, diogelu data, rhyddid gwybodaeth, ymddygiad aelodau, herio caffael neu apêl ar wahân. Yn hytrach, dylid cyfeirio'r materion hynny i'r llwybr priodol.

## 8 DATBLYGU EIN DULL GWEITHREDU

8.1 Bydd prosesau a systemau yn parhau i esblygu ochr yn ochr â datblygiad sefydliadol.

## 9 GOBLYGIADAU ARIANNOL

9.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r adroddiad hwn.

## 10 GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

10.1 Ymdrinnir â'r goblygiadau cyfreithiol yng nghorff yr adroddiad.

---

ATODIADAU:

Atodiad 1: Polisi Canmoliaethau, Sylwadau a Chwynion

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Mae cyflwyno polisi cwynion corfforaethol clir yn cael ei gefnogi o safbwynt llywodraethu. Dylai'r polisi gynorthwyo gyda thrin cwynion yn gyson, uwch-gyfeirio priodol, cadw cofnodion, dysgu sefydliadol a thryloywder. Mae hefyd yn bwysig bod y polisi yn parhau i fod wedi'i gyfyngu'n glir i gwynion corfforaethol ac nad yw'n torri ar draws prosesau statudol, cyfreithiol, adnoddau dynol, canu'r gloch, diogelu data, rhyddid gwybodaeth, ymddygiad aelodau, herio caffael neu apêl ar wahân, ac y dylid parhau i ymdrin â'r rhain o dan y llwybr priodol. Yn amodol ar hynny, ystyrir bod yr adroddiad a'r polisi yn briodol i'w hystyried gan yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gydag argymhelliad i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Rwyf yn cefnogi'r Polisi arfaethedig, sydd yn gam pellach yn natblygiad strwythur llywodraethu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig."

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Polisi Canmoliaethau, Sylwadau a Chwynion

| | |
|---|---|
| Teitl: | **Polisi Canmoliaethau, Sylwadau a Chwynion** |
| Perchennog / Tîm: | Tîm Gweithrediadau |
| Dyddiad: | |
| Swyddog Adolygu: | |
| Dyddiad adolygu nesaf: | |
| Dyddiad yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb: | 3.6.26 |
| | |
| Dyddiad cymeradwyo: | |
| Cymeradwyaeth polisi gan: | |

| Fersiwn | Dyddiad | Statws / Newidiadau |
|---|---|---|
| 0.1 | 12.05.26 | Drafft cyntaf |
| 1.0 | 04.06.26 | Ystyriwyd y ddogfen bolisi gan yr Is-bwyllgor Llywodraethant ac Archwilio a phenderfynodd yr is-bwyllgor argymell I'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru i'w fabwysiadu. |
| | | |
| | | |
| | | |

# Polisi Canmoliaethau, Sylwadau a Chwynion

Mae gweithio ar y cyd yn un o werthoedd craidd Uchelgais Gogledd Cymru. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gwrando ar drigolion a chymunedau ar draws y rhanbarth fel y gallwn ddeall eu blaenoriaethau yn well. Rydym yn croesawu adborth ar yr hyn yr ydym yn ei wneud yn dda ac ar sut y gallwn wella, ac mae'r polisi hwn yn esbonio'r gwahanol ffyrdd y gallwch rannu eich barn.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi ymrwymo i ymateb yn effeithiol i unrhyw bryderon neu gwynion am ein gwasanaethau. Ein nod yw egluro unrhyw beth nad ydych yn siŵr amdano ac, lle bynnag y bo'n bosibl, cywiro unrhyw gamgymeriadau y gallwn fod wedi'u gwneud.

Os ydym wedi gwneud rhywbeth o'i le, byddwn yn ymddiheuro ac, lle bo'n briodol, yn cymryd camau i wneud pethau'n iawn.

Mae ein gweithdrefn yn rhoi pwyslais cryf ar ddysgu o brofiad. Mae hyn yn ein helpu i ddeall pryderon pobl, gwella ein gwasanaethau, a rhannu arfer dda ar draws y sefydliad.

## Chwe egwyddor ar gyfer gweinyddu da

Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd â'r chwe egwyddor ar gyfer gweinyddu da a nodir gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) o dan adran 34 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

1. Cael pethau yn iawn.
2. Canolbwyntio ar y cwsmer.
3. Bod yn agored ac yn atebol.
4. Gweithredu yn deg ac yn gymesur.
5. Gwneud pethau yn iawn.
6. Ceisio gwelliant parhaus.

## Canmoliaethau

Os hoffech ddweud wrthym am rywbeth rydyn ni wedi'i wneud yn dda, bydd hyn yn ein helpu i werthuso darpariaeth ein gwasanaethau a sut y gallwn adeiladu ar, a rhannu unrhyw arfer dda. Rydym hefyd yn croesawu canmoliaeth i aelod o staff neu dîm fel y gallwn gydnabod a dathlu eu harfer dda. Gweler isod sut i gyflwyno canmoliaeth.

Bydd pob canmoliaeth, sylwadau a chwynion yn cael eu cofnodi a'u cyfeirio at y tîm/staff perthnasol yn Uchelgais Gogledd Cymru.

## Sylwadau

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn croesawu sylwadau ac awgrymiadau ynghylch sut y gallwn wella ein gwasanaethau neu unrhyw bryderon sydd gennych am unrhyw agwedd ar ein gwaith.

### Gallwch gyflwyno canmoliaeth neu sylw drwy:

- Ofyn am gopi o'n ffurflen gan y person rydych eisoes mewn cysylltiad ag ef
- Defnyddiwch y ffurflen ar ein gwefan: Uchelgais Gogledd Cymru
- E-bostiwch ni – adborth@uchelgaisgogledd.cymru
- Ysgrifennwch lythyr atom yn: Uchelgais Gogledd Cymru, Adeiladau'r Llywodraeth, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, Conwy, LL31 9RZ

Dalier sylw, efallai na fyddwn yn gallu ymateb i bob canmoliaeth a sylw.

## Cwynion

### Pryd i ddefnyddio’r polisi:

Pan fyddwch yn mynegi eich pryderon neu'n cwyno i ni, byddwn fel arfer yn ymateb yn y ffordd a amlinellir o dan 'Sut i wneud cwyn'.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i gwynion corfforaethol am wasanaethau Uchelgais Gogledd Cymru. Nid yw'n berthnasol lle mae proses statudol, gyfreithiol, cytundebol, Adnoddau Dynol, llywodraethu neu apêl ar wahân ar gael neu'n fwy priodol. Pan fydd hyn yn wir, byddwn yn ceisio cyfeirio'r achwynydd i'r broses gywir.

Dalier sylw, nad yw'r polisi hwn yn gymwys:

- Os oes gennych gais am Ryddid Gwybodaeth neu bryder neu gŵyn ynghylch Diogelu Data. Dylid cyfeirio'r materion hyn at Swyddog Diogelu Data Uchelgais Gogledd Cymru. Gallwch gysylltu â nhw drwy
- E-bost: data@uchelgaisgogledd.cymru
- Neu yn ysgrifenedig: Uchelgais Gogledd Cymru, Adeiladau'r Llywodraeth, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, Conwy, LL31 9RZ.
- Os hoffech fynegi pryder neu wneud cwyn am Aelod (neu aelod o Is-bwyllgor) o Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd a allai fod wedi torri Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion)(Cymru) 2001, dylech gyflwyno pryder neu gŵyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru). Mae rhagor o wybodaeth am wneud cwyn ar gael ar wefan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru): Yr hyn a wnawn pan dderbyniwn eich cwyn am ymddygiad cynghorydd lleol | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Gallwch hefyd gysylltu â'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus dros y ffôn: 0300 790 0203 .

## Sut i wneud cwyn:

Mae dau gam i drefn gwyno Uchelgais Gogledd Cymru.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cadw'r hawl i uwch-gyfeirio materion difrifol yn syth i Gam 2 os yw'n teimlo bod hyn yn angenrheidiol yn seiliedig ar natur a difrifoldeb y gŵyn a godwyd.

## Cam 1: Datrysiad cynnar (anffurfiol)

Os yn bosibl, credwn ei bod yn well delio â phethau ar unwaith. Os oes gennych bryder, codwch ef gyda'r person rydych chi'n delio ag ef. Byddant yn ceisio ei ddatrys i chi yn y fan a'r lle.

Os na ellir datrys y mater ar unwaith, bydd yn cael ei drin fel cwyn Cam 1.

Bydd cwynion Cam 1 fel arfer yn cael eu hystyried gan y rheolwr tîm perthnasol neu swyddog arweiniol priodol arall o fewn maes y rhaglen dan sylw, a hynny o fewn 10 diwrnod gwaith.

Byddem yn disgwyl ymateb i gŵyn anffurfiol i:

- Gynnig ymddiheuriad lle bo'n briodol
- Cynghori pa gamau sydd i'w cymryd i wneud pethau'n iawn
- Adnabod unrhyw wersi a ddysgwyd; a
- Darparu gwybodaeth am beth i'w wneud os ydych chi'n parhau i fod yn anfodlon.

Os oes unrhyw wersi i'w dysgu o fynd i'r afael â'ch pryder, bydd y tîm perthnasol yn eu cofnodi ac yn eu tynnu at ein sylw. Os ydych chi'n parhau i fod yn anfodlon â'r ymateb, gallwch wedyn benderfynu a ydych am wneud cwyn neu nodi pryder yn ffurfiol. Os ydych chi'n anfodlon â'r ymateb i ganlyniad Cam 1, efallai y bydd eich cwyn yn cael ei chyfeirio i Gam 2.

## Cam 2: Pryder neu gŵyn ffurfiol

Gallwch fynegi eich pryder neu eich cwyn yn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

- Gofynnwch am gopi o'n ffurflen Canmoliaethau, Sylwadau a Chwynion gan y person rydych eisoes mewn cysylltiad ag ef. Dywedwch wrthynt eich bod am i ni ddelio â'ch pryder yn ffurfiol.
- Defnyddiwch y ffurflen Canmoliaethau, Sylwadau a Chwynion ar ein gwefan: [Uchelgais Gogledd Cymru | Sut i gymryd rhan?]
- E-bostiwch ni – adborth@uchelgaisgogledd.cymru
- Ysgrifennwch lythyr atom yn: Uchelgais Gogledd Cymru, Adeiladau'r Llywodraeth, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, Conwy, LL31 9RZ.

Mae copïau o'r polisi hwn a'r ffurflen gwyno ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Ar gyfer copïau print bras neu Braille neu sain, cysylltwch â: adborth@uchelgaisgogledd.cymru

Bydd cwynion fel arfer yn cael eu cadarnhau yn ysgrifenedig; fodd bynnag, byddwn yn cefnogi unigolion sydd angen cymorth i gyflwyno cwyn mewn ffurf arall.

## Delio â'ch pryder neu gŵyn:

- Byddwn yn cydnabod eich pryder neu'ch cwyn ffurfiol o fewn 5 diwrnod gwaith ac yn rhoi gwybod i chi sut rydym yn bwriadu delio ag ef.
- Byddwn yn gofyn i chi ddweud wrthym sut yr hoffech i ni gyfathrebu â chi a phenderfynu a oes gennych unrhyw ofynion – er enghraifft, os oes angen dogfennau mewn ffurf gwahanol arnoch er mwyn iddynt fod yn hygyrch. Byddwn hefyd yn ystyried ceisiadau am gyfathrebu ysgrifenedig mewn iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg.
- Byddwn yn ymdrin â'ch pryder mewn modd agored a gonest.
- Gallwn eich sicrhau na fyddwch o dan unrhyw anfantais wrth gysylltu â ni yn y dyfodol o ganlyniad i'r ffaith eich bod wedi mynegi pryder neu wedi cwyno, nac o ran ein cyfrifoldebau i chi.
- Os ydych chi'n mynegi pryder ar ran rhywun arall, byddwn angen eu cytundeb ysgrifenedig i chi weithredu ar eu rhan.

Fel arfer, byddwn ond yn gallu edrych ar eich pryderon os ydych chi'n dweud wrthym amdanynt o fewn 6 mis i'r mater godi. Y rheswm am hyn yw ei bod yn haws dwyn manylion i gof am ddigwyddiadau diweddar ac felly'n haws i ni ymchwilio i'ch pryderon. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y gallwn edrych ar bryderon a ddaw i'n sylw yn hwyrach na hyn. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i chi esbonio pam nad ydych wedi gallu dod â'r mater i'n sylw yn gynharach, a bydd angen i ni gael digon o wybodaeth am y mater i'n galluogi i'w ystyried yn iawn. Beth bynnag, ni fyddwn yn ystyried unrhyw bryderon am faterion a ddigwyddodd fwy na 12 mis yn ôl.

## Ymchwiliad

Byddwn yn rhoi gwybod i chi pwy fydd yn edrych ar eich pryder neu gŵyn.

Fel arfer, bydd cwynion Cam 2 yn cael eu hystyried gan gyfarwyddwr neu uwch swyddog Uchelgais Gogledd Cymru nad yw wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r mater y cwynwyd amdano. Lle bo hynny'n briodol, gall y Prif Weithredwr benodi uwch swyddog addas arall i ymchwilio neu ymateb.

Byddwn yn nodi ein dealltwriaeth o'ch pryderon ac yn gofyn i chi gadarnhau bod hyn yn gywir. Byddwn hefyd yn gofyn i chi ddweud wrthym pa ganlyniad rydych chi'n gobeithio ei gyflawni.

Efallai y byddwn yn cysylltu â chi i ofyn am eglurhad am eich cwyn yn ystod yr ymchwiliad. Os na fyddwn yn derbyn ymateb o fewn 28 diwrnod gwaith, bydd y gŵyn yn cael ei chau, a byddwn yn ysgrifennu atoch i egluro hyn.

Fel arfer, bydd angen i'r swyddog sy'n ymchwilio i'ch cwyn gael mynediad at ffeiliau perthnasol a gedwir gan Uchelgais Gogledd Cymru. Os nad ydych yn dymuno i hyn ddigwydd, mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym cyn gynted â phosibl.

Pan fydd ateb syml ar gael, efallai y byddwn yn gofyn a ydych yn fodlon derbyn hyn yn hytrach na bwrw ymlaen ag ymchwiliad llawn, a allai gymryd mwy o amser ac adnoddau.

Byddwn yn anelu at ymateb i gwynion Cam 2 cyn gynted â phosibl, ac rydym yn disgwyl delio â'r mwyafrif o fewn 20 diwrnod gwaith. Pan nad yw hyn yn bosibl, er enghraifft os yw'ch cwyn yn fwy cymhleth, neu pan fo angen ymchwiliad pellach yn rhesymol, bydd y swyddog sy'n ymchwilio i'ch cwyn yn:

- Rhoi gwybod i chi o fewn 20 diwrnod gwaith pam fod angen mwy o amser gan darparu amserlen ddiwygiedig (ni ddylai hyn fod yn hwy na 3 mis o ddyddiad eich cwyn wreiddiol).
- Yn gadael i chi wybod am gynnydd yr ymchwiliad a rhoi diweddariad i chi os yw'r amserlen yn newid.

Bydd y swyddog sy'n ymchwilio yn anelu at sefydlu'r ffeithiau yn gyntaf. Bydd cwmpas yr ymchwiliad yn dibynnu ar ddifrifoldeb a chymhlethdod y materion a godwyd. Ar gyfer achosion mwy cymhleth, byddwn yn paratoi cynllun ymchwilio.

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y byddwn yn gofyn i'ch cyfarfod i drafod eich pryderon. Weithiau, efallai y byddwn yn awgrymu cyfryngu neu ddull priodol arall i helpu i ddatrys y mater.

Byddwn yn ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol, a all gynnwys gwybodaeth rydych chi wedi'i darparu, ffeiliau achos, nodiadau sgyrsiau, gohebiaeth, negeseuon e-bost neu ddeunyddiau eraill sy'n berthnasol i'ch pryder. Lle bo angen, byddwn hefyd yn siarad â staff neu eraill sy'n gysylltiedig ac yn adolygu ein polisïau, ein canllawiau ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol.

### Cwyn sy'n ymwneud â mwy nag un sefydliad

Os yw eich cwyn yn cwmpasu mwy nag un sefydliad, er enghraifft, Uchelgais Gogledd Cymru ac un o'i Awdurdodau cyfansoddol, byddwn yn gweithio gyda nhw i benderfynu pwy ddylai ddelio â'r mater. Byddwn yn rhoi gwybod i chi pwy fydd yn gyfrifol am gyfathrebu â chi tra bod eich cwyn yn cael ei hystyried a phryd y gallwch ddisgwyl canlyniad.

Os yw'r gŵyn yn ymwneud â chorff sy'n gweithio ar ein rhan, er enghraifft, cwmni sydd wedi'i gontractio gan Uchelgais Gogledd Cymru, efallai yr hoffech godi'r mater yn anffurfiol gyda nhw yn gyntaf. Fodd bynnag, os hoffech godi'r mater gyda ni ar sail ffurfiol, byddwn yn edrych ar y gŵyn ac yn ymateb i chi.

### Canlyniad

Os ymchwilir i'ch cwyn yn ffurfiol, byddwn yn rhoi gwybod ein canfyddiadau i chi. Lle bo hynny'n briodol, byddwn yn cynhyrchu adroddiad ysgrifenedig yn esbonio sut a pham y gwnaethom ddod i'n casgliadau.

Os ydym yn canfod ein bod wedi gwneud camgymeriad, byddwn yn esbonio beth ddigwyddodd a pham. Pan fyddwn yn nodi diffygion yn ein systemau neu'r ffordd rydyn ni'n gweithio, byddwn yn dweud wrthych beth yw'r diffygion hynny ac yn amlinellu'r camau y byddwn yn eu cymryd i'w hatal rhag digwydd eto. Pan fydd camgymeriad wedi digwydd, byddwn bob amser yn cynnig ymddiheuriad.

## Gwneud pethau yn iawn

Os na wnaethom ddarparu gwasanaeth yr oedd gennych hawl i'w dderbyn, byddwn yn ceisio ei ddarparu cyn gynted â phosibl, lle bo hynny'n bosibl. Os na wnaethom rywbeth yn dda, byddwn yn cymryd camau i'w gywiro a phryd y bydd hyn yn digwydd.

Os ydych wedi dioddef colled o ganlyniad i'n camgymeriad, byddwn yn ceisio lle bo hynny'n briodol, i'ch adfer i'r sefyllfa y byddech wedi bod ynddi pe bai pethau wedi'u gwneud yn gywir.

Os gwnaethoch dalu am wasanaeth y dylem fod wedi ei ddarparu neu os oedd gennych hawl i gyllid na chawsoch chi, byddwn yn ceisio ad-dalu'r gost neu wneud y taliad priodol.

## Yr Ombwdsmon

Os na fydd eich cwyn yn cael ei datrys yn eich barn chi, gallwch gwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ar holl gyrff y llywodraeth ac yn medru ymchwilio i'ch cwyn os y credwch eich bod chi, neu'r person rydych yn cwyno ar eu rhan:

- Wedi cael eu trin yn annheg neu wedi derbyn gwasanaeth gwael trwy ryw fethiant ar ran y darparwr gwasanaeth
- Wedi bod dan anfantais bersonol gan fethiant gwasanaeth neu wedi cael eu trin yn annheg

Mae'r Ombwdsmon yn disgwyl i chi fynegi'ch pryderon i ni yn gyntaf, er mwyn rhoi cyfle i ni wneud yn iawn am hynny.

Gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon drwy:

- Ffôn: 0300 790 0203
- E-bost: gofyn@ombwdsmon.cymru
- Y wefan: www.ombwdsmon.cymru
- Ysgrifennu at: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ

## Gwneud cwyn am ein gwasanaethau Cymraeg

Bydd cwynion mewn perthynas â'r Gymraeg yn dilyn yr un gweithdrefnau a amlinellir yn y polisi hwn.

Os ydych yn anfodlon â'r ffordd yr ydym yn ymateb i'ch cwyn ynglŷn â'r Gymraeg neu os yw eich rhyddid i siarad Cymraeg wedi'i wrthod, gallwch gwyno'n uniongyrchol i Gomisiynydd y Gymraeg:

- Ffôn: 0345 6033 221
- E-bost: post@cyg-wlc.cymru
- Gwefan: Ffurflen Cwynion
- Comisiynydd y Gymraeg, Swyddfa Caernarfon

  Uned 2, Bloc C
  Doc Fictoria
  Caernarfon
  LL55 1TH

## Dysgu Gwersi

Rydym yn cymryd eich pryderon a'ch cwynion o ddifri ac yn ceisio dysgu o unrhyw gamgymeriadau rydyn ni wedi'u gwneud. Mae ein Uwch Dîm Rheoli yn ystyried crynodeb o'r holl gwynion ac yn cael ei wneud yn ymwybodol o bob pryder neu gwynion difrifol sydd angen ymchwiliad.

Lle mae angen newid sylweddol, byddwn yn datblygu cynllun gweithredu sy'n nodi'r hyn y byddwn yn ei wneud, pwy fydd yn ei wneud a phryd yr ydym yn bwriadu ei wneud. Byddwn yn rhoi gwybod i chi pryd fydd y newidiadau a addawyd gennym wedi'u cwblhau.

## Monitro Canmoliaethau, Sylwadau a Chwynion

Bydd yr holl ganmoliaethau, sylwadau a chwynion sy'n berthnasol i'r polisi hwn yn cael eu cofnodi gan Uchelgais Gogledd Cymru. Bydd yr Uwch Swyddog Polisi Corfforaethol yn gyfrifol am oruchwylio, cofnodi ac adolygu cwynion.

Bob chwe mis, bydd Uwch Dîm Arweinyddiaeth Uchelgais Gogledd Cymru a'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried crynodeb o'r holl gwynion a dderbyniwyd. Bydd hyn yn cynnwys manylion unrhyw gwynion difrifol gydag argymhellion lle mae gwelliannau gwasanaeth wedi'u nodi.

## Beth fyddwn ni yn ei ddisgwyl gennych chi

Credwn fod gan bob achwynydd yr hawl i gael ei glywed, ei ddeall a’i barchu. Fodd bynnag, rydym hefyd o'r farn bod gan ein tîm yr un hawliau. Rydym felly yn disgwyl i chi fod yn gwrtais a pharchus wrth ddelio â ni. Ni fyddwn yn goddef ymddygiad ymosodol neu ddifrïol, gorchmynion afresymol na dyfalbarhad afresymol.

## Atodiad 1: Ffurflen Canmoliaethau, Sylwadau a Chwynion

| Fersiwn | Dyddiad | Statws / Newidiadau |
|---|---|---|
| 0.1 | 12.05.26 | Drafft cyntaf |
| 1.0 | 04.06.26 | Ystyriwyd y ddogfen bolisi gan yr Is-bwyllgor Llywodraethant ac Archwilio a phenderfynodd yr is-bwyllgor argymell i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru I'w fabwysiadu. Ychwanegwyd cofnod rheoli fersiwn I'r ffurflen gyflwyno adborth sy'n atodiad i'r ddogfen. |
| | | |
| | | |
| | | |

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Ffurflen Canmoliaethau, Sylwadau a Chwynion

(ar gael fel dogfen Word, PDF ac fel ffurflen ar-lein)

Yn Uchelgais Gogledd Cymru, rydym yn gweithio'n galed i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i bawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Ein nod yw rhoi pobl yng nghanol popeth a wnawn.

Rydym yn croesawu eich adborth am y gwasanaethau rydych chi wedi'u derbyn. Mae eich profiad yn ein helpu i ddeall beth rydyn ni'n ei wneud yn dda a ble mae angen i ni wella.

Mae eich adborth yn bwysig i ni. Rydym yn defnyddio eich sylwadau a'ch mewnbwn i'n helpu i wella ein gwasanaethau i bawb. Cwblhewch y ffurflen hon i gyflwyno'ch canmoliaeth, eich sylw neu eich cwyn:

## A Eich manylion:

| Cyfenw: | Enw(au) Cyntaf: | Teitl: Mr / Mrs / Miss / Ms / os arall, nodwch os gwelwch yn dda. |
|---|---|---|
| | | |

Cyfeiriad a chod post:

Cyfeiriad E-bost:

| Rhif ffôn cyswllt yn ystod y dydd: | Rhif ffôn symudol: |
|---|---|
| | |

Nodwch pa un o'r dulliau uchod y byddai'n well gennych i ni gysylltu â chi:

**Eich gofynion:** os yw ein ffordd arferol o ddelio â'r broses hon yn ei gwneud hi'n anodd i chi ddefnyddio ein gwasanaeth, dywedwch wrthym fel y gallwn drafod sut y gallem eich helpu.

Fel arfer, y person a brofodd y sefyllfa ddylai lenwi'r ffurflen hon.

Os ydych chi'n cwblhau'r ffurflen hon ar ran rhywun arall, llenwch Adran B. Dalier sylw, cyn ymgymryd â'r mater, bydd angen i ni fodloni ein hunain bod gennych yr awdurdod i weithredu ar ran y person dan sylw.

## B Llenwch y ffurflen isod os ydych yn cwblhau'r ffurflen ar ran rhywun arall:

| Eu cyfenw: | Eu henw(au) cyntaf: | Teitl: Mr / Mrs / Miss / Ms / os arall, nodwch os gwelwch yn dda. |
|---|---|---|
| ______________ | ______________ | ______________ |

Cyfeiriad a chod post:

______________________________

Beth yw eich perthynas â nhw?

______________________________

Pam ydych chi'n cysylltu â ni ar eu rhan?

______________________________

## C. Beth yw eich rheswm/rhesymau dros gysylltu â ni? (Parhewch â'ch atebion i'r cwestiynau canlynol ar daflen(ni) ar wahân os oes angen)

☒Canmoliaeth
☐Sylw
☐Cwyn
☐Arall

C1 Enw'r Gwasanaeth/Swyddog perthnasol dan sylw:

---

C2 Beth yn eich barn chi a wnaed yn dda, neu beth na wnaed yn dda neu beth y gellid ei wella?

---

C3 Disgrifiwch sut mae hyn wedi effeithio arnoch chi'n bersonol:

---

C4 Os ydych chi'n gwneud cwyn, beth yn eich barn chi ddylai Uchelgais Gogledd Cymru ei wneud i wneud pethau'n iawn?

---

C5 Pryd wnaethoch chi ddod yn ymwybodol o'r sefyllfa am y tro cyntaf? (Os ydych chi'n gwneud cwyn ac mae'n fwy na 6 mis ers i chi ddod yn ymwybodol o'r sefyllfa am y tro cyntaf, rhowch y rheswm pam nad ydych wedi cysylltu â ni o'r blaen):

---

C6 Ydych chi eisoes wedi rhannu eich sylwadau gyda'r staff rheng flaen sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth? Os felly, rhowch fanylion byr am sut a phryd y gwnaethoch hynny:

---

Os oes gennych unrhyw ddogfennau perthnasol i gefnogi eich cais, atodwch nhw i'r ffurflen hon.

Llofnod: Dyddiad

Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen hon, anfonwch hi at: adborth@uchelgaisgogledd.cymru

Sut ydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth

Rydym yn casglu eich gwybodaeth bersonol er mwyn delio â'ch cwyn. Rydym yn gwneud hyn fel rhan o'n dyletswyddau fel corff cyhoeddus. Ni fydd eich manylion yn cael eu rhannu y tu allan i Uchelgais Gogledd Cymru heblaw pan fo angen gwneud hynny er mwyn datrys eich cwyn. I ddysgu pa mor hir rydym yn cadw eich data, cysylltwch â ni: data@uchelgaisgogledd.cymru

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

19 Mehefin, 2026

**TEITL:** Datganiad Polisi Tal 2026/27

**AWDUR:** Eleri Jones, Rheolwr Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Cyflwyno argymhelliad ar bolisi tâl ar gyfer 2026/27.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 I fabwysiadu datganiad polisi tâl Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar gyfer 2026/27 *(Atodiad 1).*

2.2 Awdurdodi swyddogion i gyhoeddi'r Datganiad Polisi Tâl cymeradwy ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cymeradwyaeth.

3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD:

3.1 Yn unol â chynnwys y Ddeddf Lleoliaeth 2011, mae’n ddyletswydd statudol ar i bob awdurdod cyhoeddus fabwysiadu datganiad polisi tâl yn flynyddol, fel sail i’w drefniadau ar gyfer cyflogi staff. Mae’r gofyn hwn yn berthnasol i Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

3.2 Bu i’r Cyd-Bwyllgor fabwysiadu’r polisi tâl yn gyntaf yn ôl ym Mehefin 2022. Wedi adolygu’r ddogfen honno, daethpwyd i’r casgliad nad oes yna newidiadau i gynnwys y polisi ar hyn o bryd. Cynigir felly bod y datganiad polisi tâl atodol yn cael ei fabwysiadu ar gyfer 2026/27.

3.3 Mae'r ddogfen wedi'i hadolygu i sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â phenodiad y Prif Weithredwr a'r trefniadau cyflog cysylltiedig.

ATODIADAU:

Atodiad 1 : Polisi Tal 2026/27

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

“Mae'r Swyddog Monitro yn nodi ei bod yn ofynnol i'r CJC o dan adran 38 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 baratoi a chymeradwyo Datganiad Polisi Cyflog ar gyfer pob blwyddyn ariannol ac yna cyhoeddi'r datganiad hwnnw. Mae'r Datganiad Polisi Cyflog arfaethedig yn cefnogi tryloywder, atebolrwydd, egwyddorion cyflog cyfartal a llywodraethu da mewn perthynas â defnyddio arian cyhoeddus.”

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

“Rwy’n fodlon fod y Polisi Tâl a argymhellir ar gyfer ei fabwysiadu gan y CBC yn gyson gyda’r Gyllideb ar gyfer 2026/27 ac yn cyfarch y gofynion statudol.”

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# Polisi Tâl – 2026/27

## 1. CYFLWYNIAD

Yn unol ag Adran 38(1) Deddf Lleoliaeth 2011, mae gofyn i Gyd-bwyllgorau Corfforedig baratoi datganiad polisi tâl. Rhaid i'r datganiad hwn gyfleu beth yw polisïau'r Cyd-bwyllgorau ar nifer o faterion sy'n ymwneud â thâl ei weithlu, yn enwedig ei uwch staff (neu 'brif swyddogion') a'r gweithwyr sy'n cael y cyflogau isaf. Rhaid paratoi datganiad polisi tâl ar gyfer pob blwyddyn ariannol a rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig llawn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd.

Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn cydnabod pa mor allweddol yw rheoli cydnabyddiaeth ariannol mewn modd teg, cyson a thryloyw ac mae'r penderfyniadau a wneir yn y cyswllt hwn yn greiddiol i sicrhau cyflog cyfartal a chydraddoldeb ar draws y Cyd-bwyllgor.

## 2. POLISI TÂL AR GYFER Y PRIF WEITHREDWR

Bydd y polisi hwn yn diffinio telerau ac amodau gwaith Prif Weithredwr y Cyd-bwyllgor a'r holl staff cyflogedig eraill, a bydd yn cael ei ddiweddaru wrth fabwysiadu strwythur staffio maes o law

Bydd y Cyd-bwyllgor yn cyflogi prif weithredwr o dan amodau a thelerau'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Weithredwyr Llywodraeth Leol a bydd hynny wedi'i ymgorffori mewn cytundeb gwaith . Mae'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol yn negodi codiad cyflog blynyddol cenedlaethol (DU) ar sail costau byw ar gyfer y grŵp hwn. Mae gan y sawl a gyflogir o dan amodau a thelerau'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol yr hawl cytundebol i unrhyw godiad cyflog cenedlaethol a ddyfernir gan y corff hwnnw a bydd y Cyd-bwyllgor felly yn talu'r rhain yn unol â gofynion cytundebol. Mae swydd y Prif Weithredwr ar raddfa rhwng £115,928 hyd at £129,172.

## 3. CYFLOGAU

Ni fydd y Cyd-bwyllgor yn talu unrhyw daliadau bonws neu dâl sy'n seiliedig ar berfformiad i'w brif weithredwr. Mae amodau a thelerau gwaith lleol y Cyd-bwyllgor yn berthnasol i'r prif weithredwr, yn yr un modd ag ar gyfer gweddill y staff, oni nodir yn wahanol yn y polisïau unigol.

Bydd y Cyd-Bwyllgor yn cyhoeddi cyflogau yn y polisi hwn ac ar ei wefan wrth sefydlu strwythur staffio.

## 4. SWYDDI O DAN LEFEL PRIF WEITHREDWR

Mae polisi tâl Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar gyfer y staff sydd yn cael eu cyflogi o dan lefel y Prif Weithredwr yn seiliedig ar bolisi tâl cyfartal a fabwysiadwyd yn wreiddiol gan Gyngor Gwynedd.

Mae'r Cyd-bwyllgor wedi mabwysiadu meini prawf Cynllun Arfarnu Swyddi GLPC fel sail i osod graddfa cyflog ar gyfer pob swydd sydd o dan Amodau Gwaith Gweithwyr Llywodraeth Leol. Mae'r Cyd-bwyllgor wedi ymrwymo i dalu cyflogau yn unol â deddfwriaeth cyflog cyfartal a'r cytundeb "statws sengl" rhwng cyflogwyr llywodraeth leol a'r undebau llafur cydnabyddedig a luniwyd yn 1997. Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd wedi penderfynu defnyddio systemau tâl Cyngor Gwynedd fel rhan o'i bolisi tâl ar gyfer ei staff.

Ni fydd y Cyd-bwyllgor yn talu unrhyw daliadau bonws neu dâl sy'n seiliedig ar berfformiad ei weithwyr.

Mae'r berthynas rhwng tâl prif weithredwr a'i weithwyr eraill wedi ei ddylunio i alluogi'r Cyd-bwyllgor i recriwtio a chadw'r gweithwyr addas gorau yn ei swyddi amrywiol, tra'n cynnal y pwyntiau gwahaniaethol a arfarnwyd yn yr arfarniad swyddi.

## 5. TÂL CYCHWYNNOL

Mae'r nifer o hicynnau sydd o fewn pob graddfa yn adlewyrchu'r cyfnod posib o ddatblygiad mewn swydd allai fod yn berthnasol i'r unigolion sydd ar y raddfa honno. Bydd aelodau staff yn cael eu penodi i'r pwynt cyflog o fewn y raddfa sydd yn adlewyrchu'r amser fydd ei angen er mwyn datblygu fel eu bod yn gallu ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd yn llawn.

Yn arferol, penodir pob gweithiwr i'r pwynt cyflog isaf o fewn y raddfa gyflog briodol. Os yw gweithiwr eisoes yn derbyn tâl uwchben y pwynt cyflog isaf neu os oes tystiolaeth ddigonol i arddangos bod y gweithiwr eisoes yn llawn gymwys i gyflawni nifer o agweddau o'r swydd, gellir penodi ar bwynt cyflog uwch o fewn y raddfa gyflog briodol.

Os oes lle o fewn graddfa'r swydd, bydd pob aelod staff yn gymwys i dderbyn hicyn cyflog blynyddol ar y cyntaf o Ebrill, ar yr amod eu bod wedi'u penodi i'w swydd bresennol am fwy na chwe mis cyn y dyddiad hwnnw.

## 6. COSTAU AIL-LEOLI

Mewn sefyllfa pan ei bod yn angenrheidiol i weithiwr ail-leoli er mwyn ymgymryd â swydd, gall y Cyd-bwyllgor, o dan amgylchiadau arbennig, gyfrannu tuag at ad-daliad costau ail-leoli. Mae'r cynllun yn berthnasol i weithwyr a benodir o ganlyniad i hysbyseb neu'n dilyn ad-drefnu mewnol lle bydd rhaid iddynt symud tŷ.

Rhaid i gartref presennol y gweithiwr fod fwy na 20 milltir o'r ganolfan weinyddol cyn y gellir ystyried cais i ad-dalu costau.

O dan yr amgylchiadau hyn, telir cost symud dodrefn ac eiddo yn llawn, yn ddarostyngedig i dderbyn yr isaf o dri dyfynbris ynghyd â chost lawn storio dodrefn hyd at dri mis. Gellir gwneud cyfraniad hyd at £3,270 ar gyfer costau cyfreithiol, ffioedd arwerthwr tai, costau carpedi a llenni a mân gostau symud eraill yn amodol ar ddangos derbynebau perthnasol.

## 7. YCHWANEGIAD Y FARCHNAD

Mae graddfa cyflog pob swydd wedi ei seilio ar gynllun arfarnu swyddi sydd yn cael ei reoli gan Gyngor Gwynedd. Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd wedi mabwysiadu'r cynllun hwn ar gyfer pennu cyflogau i'w swyddi (ar wahân i swyddi'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Rhaglen). Golyga hyn fod y system o dalu aelodau staff wedi ei seilio ar gydraddoldeb yn unol â'r diffiniad yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac yn sicrhau cysondeb o ran penderfyniadau sydd yn ymwneud â thâl. O ganlyniad fe allai unrhyw wyriad o'r system hon greu risg sydd angen ei reoleiddio'n gadarn. Mae'n rhaid bod rhesymau pendant a chlir os am gyfiawnhau unrhyw wyriad o'r trefniant hwn.

Fodd bynnag, fe allai sefyllfa godi pan fo pwysau'r farchnad yn creu problemau recriwtio a/neu gadw staff yng nghyswllt swydd benodol. Gall y Cyd-bwyllgor mewn rhai achosion eithriadol, ac er mwyn denu a/neu gadw unigolyn i swydd benodol, gynnig taliad ychwanegol i'r raddfa gyflog sylfaenol sydd wedi ei fabwysiadu.

Yn y cyswllt hwn dim ond pan fydd tystiolaeth ddogfennol ddigonol o fethiant i recriwtio a/neu gadw aelod staff y bydd ychwanegiad y farchnad yn cael ei ddefnyddio. Nid yw ychwanegiad y farchnad yn ychwanegiad parhaol i gyflog swydd. Os yw'r amgylchiadau sydd yn berthnasol i'r ychwanegiad yn newid, neu os yw aelod staff yn cael ei drosglwyddo gan y Cyd-bwyllgor i swydd arall nad yw'n denu ychwanegiad y farchnad, yna bydd hawl yr unigolyn hwnnw/honno i'r taliad yn peidio, a bydd yr atodiad yn cael ei atal yn unol â'r rhybudd priodol.

## 8. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL (YMGYMRYD Â CHYFRIFOLDEBAU YCHWANEGOL)

Gellir caniatáu taliad ychwanegol pan fo aelod staff yn cytuno i gais i ymgymryd â chyfran o ddyletswyddau a chyfrifoldebau sydd y tu hwnt i ddyletswyddau a chyfrifoldebau arferol ei swydd ar sail dros dro. Mae'n rhaid i'r gyfran o ddyletswyddau a chyfrifoldebau uwch fod yn sylweddol, yn cael eu harfarnu ar lefel cyflog uwch a thros gyfnod estynedig cyn y gellir cynnig cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol dros-dro.

## 9. FFIOEDD PROFFESIYNOL

Ad-delir un ffi'r flwyddyn i Swyddogion ar gyfer aelodaeth o gorff cydnabyddedig sy'n berthnasol i'w swyddogaeth broffesiynol a phan fo'r aelodaeth hwnnw yn ofyniad gan y Cyngor.

## 10. DEFNYDDWYR CAR

Dynodir pob gweithiwr fel defnyddiwr car achlysurol a thelir ad-daliadau am deithiau busnes ar sail graddfeydd Swyddfa Cyllid y Wlad.

## 11. TREULIAU CYNHALIAETH

Telir ad-daliadau cynhaliaeth, ar gyflwyniad derbynneb, os yw aelod staff yn teithio tu allan i'r Sir ar gyfer brecwast, cinio, te a swper, a hynny hyd at yr uchafswm ar gyfer lwfansau cynhaliaeth. Ar gyfer y staff hynny sydd â'u gwaith yn golygu eu bod yn teithio ar draws mwy nag un Sir e.e. Gwynedd a Môn, diffinnir "y tu allan i'r Sir" fel y tu allan i'r ardal waith arferol.

## 12. GWEITHIO ORIAU YCHWANEGOL

Telir gweithwyr, a gyflogir ar bwynt 22 neu is, ar sail unwaith a hanner o'r cyflog sylfaenol yr awr pan yn gweithio mwy na 37 awr mewn wythnos (trefniadau amgen ar gyfer gweithwyr gyda phatrymau gwaith pan fo'r oriau a weithir ar sail pythefnos/misol neu flynyddol). Caniateir tâl sylfaenol neu amser yn ei le i staff a gyflogir ar bwynt uwch na 22 pan eu bod yn gweithio mwy na 37 awr, neu os yw'r prif weithredwr wedi cymeradwyo'r gwaith ychwanegol ymlaen llaw yna gellir awdurdodi tâl ar sail amser a hanner.

## 13. GWEITHIO ORIAU ANGHYMDEITHASOL

Telir cyflog ar y raddfa sylfaenol am waith, oddi fewn i'r 37 awr, a gyflawnir ar y penwythnos. Telir tâl chwyddedig o dâl sylfaenol a thraean rhan o'r cyflog am waith a gyflawnir rhwng 10 y nos a 6 y bore i weithwyr sy'n gweithio yn ystod yr oriau hynny.

Telir cyflog yn unol â'r cytundeb cenedlaethol ar gyfer gwaith a gyflawnir ar wyliau banc a gwyliau statudol ychwanegol.

## 14. LWFANS CYMORTH CYNTAF

Telir lwfans blynyddol i weithwyr sydd yn gweithredu fel Cymorthyddion Cyntaf dynodedig.

## 15. DISWYDDO AC YMDDEOL

Mae cynlluniau diswyddo ac ymddeol y Cyd-bwyllgor yn cael eu gweithredu'n gyfartal a theg i bob aelod staff, waeth beth fo'u graddfa cyflog, eu hoedran neu eu rhyw ac fe'i gweithredir yn unol â rheoliadau'r cynlluniau pensiwn perthnasol. Nid oes unrhyw eithriadau i brif swyddogion.

## 16. CYNLLUN COLLED ARIANNOL

Diffinnir colled ariannol fel colled o ganlyniad i newid mewn graddfa cyflog ac amodau a thelerau cytundebol. Mae'r Cyd-bwyllgor yn darparu cymorth ariannol i staff sy'n wynebu sefyllfa o golled ariannol (yn sgil ail-strwythuro neu ail-ddyrannu cyfrifoldebau) am gyfnod o ddwy flynedd oddi ar ddyddiad gweithredol y newid i'w pecyn cyflogaeth, gyda 100% o warchodaeth yn y flwyddyn gyntaf a 50% yn yr ail. Bydd y cymorth ariannol hwnnw yn dod i ben ar ôl dwy flynedd oni bo'r aelod staff unigol yn y cyfamser wedi'i benodi i swydd arall ple nad yw o/hi yn wynebu'r golled ariannol.

## 17. AIL-GYFLOGI

Bydd y Cyd-bwyllgor yn ystyried pob ymgeisydd yn ôl ei r(h)inweddau ei hun a bydd yn penodi gyda'r bwriad o gyflawni'r effeithlonrwydd gorau ar gyfer y gwasanaeth a'r gwerth gorau ar gyfer ei drethdalwyr. Byddai'r fath benodiad, os byddai'n cael ei wneud, yn destun unrhyw leihad a nodir yn y Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llyw-odraeth Leol.

Yn unol â deddfwriaeth trethiant, rhaid i reolwyr sicrhau ym mhob achos fod unrhyw drefniant i dalu unigolyn am waith trwy 'gytundeb o wasanaeth' wedi bod yn destun prawf statws cyflogaeth fel sy'n ymddangos ar wefan CThEM, a cynhelir y prawf yma yn hollol wrthrychol.

## 18. PENODI PRIF SWYDDOG NEWYDD (CYFLOG O £100,000 A THROSODD)

Bydd y Cyd-bwyllgor llawn yn cymeradwyo unrhyw newid i becyn cyflog swydd o'r fath cyn yr eir ati i recriwtio.

Hysbysebir yn allanol ar gyfer llenwi swydd o'r fath.

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU

19 Mehefin 2026


TEITL: Sefyllfa alldro Refeniw a Chyfalaf 2025/26

AWDUR: Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol CBC)
Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid


## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) sefyllfa alldro terfynol y CBC, Cynllun Twf (gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Cynllun Ynni Ardal Leol), Parth Buddsoddi a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer 2025/26.

## 2. PENDERFYNIADAU A GEISIWYD

2.1. I nodi a derbyn sefyllfa alldro y CBC ar gyfer 2025/26 (Atodiad 1), gan gynnwys trosglwyddo £1,067,414 i'r gronfa wrth gefn wedi'i glustnodi i ariannu cyllidebau'r dyfodol.

2.2. I nodi a derbyn sefyllfa alldro'r Cynllun Twf ar gyfer 2025/26 (Atodiad 2). Oherwydd y tanwariant a adroddwyd, mae hyn yn cynnwys peidio â ddefnyddio £60,990 o'r gronfa wrth gefn wedi'i glustnodi a defnyddio swm llai o £867,731 o grant Cynllun Twf Gogledd Cymru i ddangos sefyllfa niwtral ar gyfer y flwyddyn.

2.3. I nodi a derbyn sefyllfa cronfeydd y Cynllun Twf (Atodiad 3).

2.4. I nodi a derbyn adolygiad cyfalaf diwedd flwyddyn y Cynllun Twf ar 31 Mawrth 2026 (Atodiad 4).

2.5. I nodi a derbyn sefyllfa alldro y Parth Buddsoddi ar gyfer 2025/26 (Atodiad 5).

2.6. I nodi a derbyn sefyllfa alldro y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol ar gyfer 2025/26 (Atodiad 6).

## 3. RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Hysbysu'r CBC a cheisio cymeradwyaeth o'r sefyllfa derfynol ar gyfer 2025/26.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Ar 1 Ebrill 2025, trosglwyddydd rôl a swyddogaethau y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i'r CBC, a oedd yn cynnwys staff, adnoddau, ymrwymiadau ac asedau ariannol, gan gynnwys y Cynllun Twf a'r cyllid. Trosglwyddwyd y Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol hefyd i'r CBC ar yr un dyddiad.



Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

4.2. Caiff y CBC ei ystyried yn "gorff perthnasol mwy" yn unol â’r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd). Golyga hyn y bydd Datganiad Cyfrifon blynyddol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifo Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig yn cael ei gynhyrchu ar gyfer 2025/26 a'i gyflwyno maes o law.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

<u>Cyd-Bwyllgor Corfforedig</u>

5.1. Mae Atodiad 1 yn darparu dadansoddiad manwl o gwariant ac incwm y CBC fesul pennawd yn erbyn ei gyllideb flynyddol ar gyfer 2025/26.

5.2. Y sefyllfa alldro net ar gyfer 2025/26 oedd tanwariant o £1,067,414 ac mae hyn wedi cynyddu o’i gymharu â’r £959,205 a ragwelwyd yn adolygiad diwedd Rhagfyr 2025. Defnyddiwyd cyllid grant y CBC a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn rhannol i ariannu costau a oedd wedi’u cyllidebu yn flaenorol, felly cyfrannodd tuag at y tanwariant. Ceisir cymeradwyaeth i drosglwyddo’r tanwariant hwn i’r gronfa wrth gefn wedi’i glustnodi i ariannu gwariant yn y blynyddoedd dilynol wrth i weithgareddau’r CBC a’i swyddogaethau gynyddu. Mae’r CBC eisoes wedi cymeradwyo i £624,590 o’r gronfa hon gael ei ddefnyddio fel rhan o gyllideb 2026/27 yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr 2026.

<u>Gweithwyr</u>

5.3. Y tanwariant terfynol ar gyfer y pennawd hwn yw £324,796.

5.4. Mae’r gwariant gweithwyr yn cynnwys y Prif Weithredwr (llawn amser ers mis Mehefin 2025, yn flaenorol ar secondiad o'r Cynllun Twf am 2 ddiwrnod yr wythnos), swyddi mewn Polisi, Cefnogaeth Corfforaethol a Gweithrediadau, cefnogaeth gan y Cynorthwyydd Personol, yr Arweinydd Cyfathrebu ac Ymgysylltu Strategol, Rheolwr Prosiect Cyllid a'r Rheolwr Caffael a Gwerth Cymdeithasol (2-3 diwrnod yr wythnos), a chostau staff ar secondiad i'r CBC. Mae'r tanwariant o £399,852 oherwydd swyddi yn cael eu llenwi yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol bresennol neu y disgwylir iddynt gael eu llenwi yn 2026/27. Mae’r tanwariant hwn yn cael ei ddefnyddio i ariannu’r gorwariant ymgynghorwyr allanol a ddangosir o dan gostau sefydlu.

5.5. Mae gwariant o £46,200 ar y pennawd capasiti ychwanegol Swyddog Monitro gan fod Swyddog Monitro dros dro wedi’i benodi er mwyn cyflawni’r rôl yn llawn amser. Roedd y swyddogaeth yn flaenorol yn cael ei chyflawni ar sail rhan-amser gan y Pennaeth Cyfreithiol a Swyddog Monitro yng Nghyngor Gwynedd.

5.6. Mae recriwtio Prif Weithredwr llawn amser a swyddi ychwanegol wedi arwain at wariant ar hysbysebu, recriwtio a hyfforddiant.

5.7. Dechreuodd cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Rhagfyr 2025, gan arwain at danwariant yn y pennawd lwfans aelodau lleyg.

<u>Teithio</u>

5.8. Y lwfans teithio a chostau cynhaliaeth staff yw £1,402, sy'n rhoi tanwariant o £1,598 ar gyfer 2025/26.

Cyflenwadau a Gwasanaethau

5.9. Mae tanwariant net o £135,369 yn erbyn y pennawd cyflenwadau a gwasanaethau.

5.10. Mae'r pennawd ymgynghorwyr allanol yn dangos tanwariant net o £72,463. Mae'r gorwariant ar yr is-bennawd Trafnidiaeth yn cael ei ariannu o'r Grant Trafnidiaeth Rhanbarthol, sy'n cael ei ddangos yn yr adran incwm. Y gyllideb ar gyfer ymgynghorwyr allanol ar gyfer Cynllunio Strategol oedd £132,500, fodd bynnag, oherwydd oedi yn y cytundebau, disgwylir y bydd y gwaith yn cael ei wneud yn 2026/27.

5.11. Mae'r prif danwariant eraill yn ymwneud ag yswiriant a systemau. Mae'r gost yswiriant wirioneddol ar gyfer 2025/26 yn llai na'r cyllideb ac mae'r rhan fwyaf o'r gost wedi'i dosrannu rhwng y CBC a'r Cynllun Twf yn seiliedig ar gostau cyllideb gweithwyr, felly yn arwain at danwariant i'r CBC. Cynhwyswyd cyllideb systemau i dalu'r costau sefydlu cychwynnol yn ogystal â ffi flynyddol ar gyfer System Rheoli Pwyllgorau; fodd bynnag, disgwylir nawr i hyn gael ei weithredu yn 2026/27.

5.12. Mae'r gorwariant o £16,256 yn eiddo yn ymwneud â chostau gofod swyddfa ychwanegol ac ail-leoli dodrefn swyddfa.

Gwasanaethau Cefnogol

5.13. Y tanwariant terfynol ar y pennawd hwn yw £79,923 gan fod y Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng y CBC a Chyngor Gwynedd eto i'w gwblhau.

5.14. Mae gorwariant ar y pennawd gwasanaethau corfforaethol oherwydd galw ar wasanaethau cyfieithu.

5.15. Mae'r tanwariant ar penawdau cyfreithiol a chefnogaeth democrataidd yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r gorwariant ar y costau cyfreithiol a democrataidd gan ymgynghorwyr allanol a ddangosir o dan gostau sefydlu.

Costau Sefydlu

5.16. Mae'r gwariant ar cyfreithiol a democrataidd ac ymgynghorwyr allanol yn ymwneud â'r cefnogaeth ar weithredu'r CBC, ac mae'r gefnogaeth wedi parhau y tu hwnt i'r cyfnod contractio cychwynnol fel rhan o drawsnewid y CBC, gan arwain at orwariant o £148,491 o'i gymharu â'r gyllideb.

Incwm

5.17. Roedd y CBC yn llwyddiannus yn ei gais i Lywodraeth Cymru am gyllid tuag at y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, y Cynllun Datblygu Strategol a chefnogaeth gweithredu'r CBC, gyda £200,000 wedi'i ddyfarnu ar gyfer y tri phennawd yn 2025/26.

5.18. Derbyniwyd £74,219 o incwm llog ar gyfer 2025/26.

5.19. Cymeradwywyd yr ardoll ar yr awdurdodau cyfansoddol ar gyfer 2025/26 gan y CBC yn ei gyfarfod ar 17 Ionawr 2025.

Cronfeydd wrth gefn

5.20. Y balans cronfa wrth gefn wedi'i glustnodi ar 31 Mawrth 2025 oedd £1,112,671, a dyrannwyd £564,740 o'r gronfa i gyllideb 2025/26 i roi balans o £547,931.

5.21. Yn 2024/25, defnyddiwyd £83,067 o gronfa wrth gefn y CBC i ariannu gwariant y Parth Buddsoddi wrth aros am gymeradwyaeth y Llywodraeth i'r grant Parth Buddsoddi. Derbyniwyd y grant yn 2025/26 ac mae £20,662 wedi'i ad-dalu i gronfa wrth gefn y CBC, gyda'r balans sydd yn weddill i'w ad-dalu yn ystod 2026/27.

5.22. Mae trosglwyddo'r tanwariant o £1,067,414 i'r gronfa wrth gefn wedi'i glustnodi yn rhoi balans o £1,636,007 ar 31 Mawrth 2026. Mae £624,590 o'r gronfa wedi'i glustnodi ar gyfer cyllideb 2026/27, yn ogystal â chyfran wedi'i ddyrannu tuag at gefnogi'r Cynllun Datblygu Strategol yn y blynyddoedd i ddod.

## Cynllun Twf (gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin a Chynllun Ynni Ardal Leol)

5.23. Mae Atodiad 2 yn darparu dadansoddiad manwl o'r gwariant a'r incwm gwirioneddol fesul pennawd yn erbyn cyllideb 2025/26.

5.24. Y sefyllfa alldro net terfynol ar gyfer 2025/26 oedd tanwariant o £543,259, ac mae hyn wedi gostwng o'r tanwariant o £618,025 a ragwelwyd yn adolygiad diwedd Rhagfyr 2025. Roedd y gyllideb ac adolygiad Rhagfyr 2025 yn cynnwys £412,085 o'r gronfa adnoddau; fodd bynnag, fel y dangosir yn Atodiad 2, defnyddiwyd £79,162 ac mae hyn wedi ariannu rolau llywodraeth ychwanegol. Mae'r gostyngiad yn y defnydd o'r gronfa adnoddau wedi gwrthbwyso tanwariant pellach mewn penawdau cyllideb gwahanol.

5.25. Er mwyn gadael sefyllfa niwtral am y flwyddyn, gofynnir i'r CBC beidio â defnyddio £60,990 o'r gronfa wrth gefn wedi'i glustnodi ac i gymeradwyo swm llai o £867,731 (o'i gymharu â'r gyllideb wreiddiol o £1,350,000) o'r grant Cynllun Twf i'w ddefnyddio i ariannu'r gwariant refeniw yn 2025/26.

Swyddfa Rheoli Portffolio

5.26. Mae tanwariant o £761,218 ar y Swyddfa Rheoli Portffolio ac mae'r prif danwariant yn cael ei ddangos ar y pennawd gwariant gweithwyr a rolau llywodraeth ychwanegol.

5.27. Y tanwariant ar y pennawd gwariant gweithwyr yw £655,371 ac mae hyn oherwydd bod rhai costau staff a oedd wedi'u cynnwys yn y gyllideb graidd wedi'u hariannu gan ffynonellau eraill.

5.28. Mae bron i £90,000 o'r tanwariant yn deillio o staff sy'n gweithio cyfran o'u hamser ar y CBC, mae tua £39,000 yn ymwneud â staff sy'n gweithio ar y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol ac mae tua £156,400 yn ymwneud â staff a ariannwyd gan brosiectau Cynllun Twf Uchelgais Gogledd Cymru.

5.29. Defnyddiwyd grantiau Cronfa Ffyniant Gyffredin a Chynllun Ynni Ardal Leol a dderbyniwyd hefyd i ariannu costau staff, sydd gyda'i gilydd yn cyfrannu bron i £153,300 o'r tanwariant.

5.30. Ddaru swyddi gwag yn ystod y flwyddyn hefyd arwain at danwariant pellach o tua £254,500 mewn gwariant gweithwyr. Mae rhan o'r tanwariant hwn wedi'i ddefnyddio i ariannu costau

ymgynghorydd allanol dros dro i gefnogi'r Rhaglen Ynni y tu hwnt i'r grant Cynllun Ynni Ardal Leol.

5.31. Cafodd rolau llywodraeth ychwanegol eu llenwi yn ystod y flwyddyn, gan arwain at danwariant o £127,518.

5.32. Ddaru recriwtio ychwanegol, gan gynnwys recriwtio Cyfarwyddwr Portffolio, arwain at orwariant o £20,932 mewn costau hysbysebu ac asesu ymgeiswyr.

5.33. Roedd gorwariant o £11,610 ar gyflenwadau a gwasanaethau oherwydd uwchraddio offer ac offer ar gyfer staff newydd.

5.34. Mae'r pennawd yswiriant yn dangos gorwariant o £11,800 oherwydd rhesymau a nodir yn 5.11. Er bod y gyllideb systemau wedi'i chynnwys i ariannu costau'r System Rheoli Pwyllgorau (disgwylir i hyn cael ei weithredu yn 2026/27), mae gwariant wedi'i wneud ar blatfform a datblygu system rheoli prosiectau.

Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol

5.35. Y tanwariant terfynol ar y pennawd hwn yw £82,056 gan fod y Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng y CBC a Chyngor Gwynedd eto i'w gwblhau. Dosrannwyd cymorth ariannol a chyfreithiol i'r Parth Buddsoddi hefyd yn ystod y flwyddyn, gan gyfrannu at y tanwariant ar gyfer y Cynllun Twf.

Cyd-bwyllgor

5.36. Mae pennawd y Cyd-bwyllgor yn dangos tanwariant o £27,456, gyda thanwariant mewn cymorth cyfreithiol allanol, ffioedd cyllidol allanol yn ogystal â'r Bwrdd Cyflawni Busnes.

Prosiectau

5.37. Y gorwariant terfynol ar y pennawd hwn yw £58,704. Mae gorwariant mewn costau cefnogaeth gyfreithiol allanol ar nifer o brosiectau yn y rhaglen gyfalaf, fodd bynnag, mae tanwariant ar gostau datblygu achosion busnes y prosiectau, cefnogaeth gyllidol allanol, cefnogaeth caffael allanol a chostau sicrwydd.

5.38. Mae penawdau cyflawni prosiectau a chyflawni prosiectau - gweithwyr yn ymwneud â gwariant ar brosiectau Cynllun Twf Uchelgais Gogledd Cymru sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd ac sy'n cael eu hystyried fel gwariant refeniw. Mae'r gwariant ar y penawdau hyn yn cael ei ariannu gan ddyraniad Cynllun Twf y prosiectau ac mae hyn yn cael ei ddangos yn yr adran Incwm.

Cynlluniau Grant

5.39. Mae'r gwariant o dan y pennawd hwn yn cynnwys prosiectau Cynllun Ynni Ardal Leol a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a ariennir gan grant ac roedd tanwariant o £31,989. Cafwyd cadarnhad yn ystod y flwyddyn ariannol y gellir hawlio'r cyllid ar gyfer y Gronfa Ffyniant Cyffredin hyd at fis Medi 2026 ac felly bydd y tanwariant o £31,986 yn cael ei wario a'i hawlio yn 2026/27.

Trosglwyddiadau i Gronfeydd

5.40. Mae'r rhan trosglwyddiadau i gronfeydd yn cynnwys £108,380 o gyfraniadau llog partneriaid a £24,679 o daliadau mynediad at gyllid ar brosiectau'r Cynllun Twf, a fydd yn cael eu trosglwyddo i'r gronfa llog i ariannu cost benthyca yn y blynyddoedd i ddod.

5.41. Yng nghyfarfod y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar 14 Chwefror 2025, cymeradwywyd cais gan y Swyddfa Rheoli Portffolio i drosglwyddo'r llog a dderbyniwyd yn 2024/25 a 2025/26 ar falansau grant Cynllun Twf Gogledd Cymru i gronfa benodol i ariannu gofynion ychwanegol y llywodraeth a chostau datblygu prosiectau o 2025/26 a chadw capasiti y Swyddfa Rheoli Portffolio am ddwy flynedd ychwanegol y tu hwnt i Mawrth 2026. Y llog a dderbyniwyd ar falansau oedd £1,833,295 a bydd £1,635,549 o'r balans hwn yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa hon (cronfa adnoddau) tra bydd y £197,746 sy'n weddill yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa llog.

Cyfraniadau Ariannu

5.42. Mae'r prif ffrydiau incwm ar gyfer 2025/26 yn cynnwys cyfraniadau partneriaid, grant Cynllun Twf Gogledd Cymru (dyraniad refeniw ac ariannu costau staff prosiectau a chostau cyflawni prosiectau), grant ynni Llywodraeth Cymru, Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, y gronfa wrth gefn wedi'i glustnodi a'r gronfa adnoddau.

5.43. Y defnydd o'r grant Cynllun Twf ar gyfer prosiectau yw £239,795 o'i gymharu â'r gyllideb o £116,675. Mae hyn oherwydd bod y grant yn ariannu 50% o gostau staff a oedd wedi'u hariannu 100% gan grant ynni Llywodraeth Cymru mewn blynyddoedd blaenorol, cynnydd yn nifer y staff a benodwyd ar gyfer prosiectau digidol a gwariant ar brosiectau Cynllun Twf Uchelgais Gogledd Cymru sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd.

5.44. Oherwydd bod y sefyllfa alldro net derfynol ar gyfer 2025/26 yn danwariant o £543,259, ac er mwyn gadael sefyllfa niwtral am y flwyddyn, cynigir na ddefnyddir y gronfa wrth gefn wedi'i glustnodi o £60,990 (felly ar gael i'w defnyddio ar gyfer cyllidebau blynyddoedd i ddod) a'r dyraniad grant Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cael ei leihau £482,269 o £1,350,000 i £867,731. Er bod grant Cynllun Twf Gogledd Cymru yn grant cyfalaf, mae'r un hyblygrwydd ag awdurdodau lleol wedi cael ei ddefnyddio yn y ffordd y maent yn rheoli eu cyllid cyfalaf, gyda Cyngor Gwynedd yn dyrannu y grant Cynllun Twf yn erbyn ei brosiectau cyfalaf ac yn rhyddhau gwerth refeniw cyfatebol i'r Cynllun Twf i ariannu ei wariant refeniw.

Cronfeydd wrth gefn

5.45. Mae Atodiad 3 yn dangos y symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn a'r balansau ar 31 Mawrth 2026.

5.46. Cyfanswm y balans cronfa wrth gefn wedi'i glustnodi ar 31 Mawrth 2026 oedd £210,977.

5.47. Balans y gronfa prosiectau ar 31 Mawrth 2025 oedd £29,167. Yn 2024/25, talwyd costau o £123,133 yn ymwneud â'r Prosiect Ynni Lleol Glân o'r gronfa gan fod yr Achos Busnes Llawn eto i'w gymeradwyo erbyn 31 Mawrth 2025. Mae'r Achos Busnes Llawn bellach wedi'i gymeradwyo, felly mae £123,133 o grant y Cynllun Twf wedi'i drosglwyddo i'r gronfa.

5.48. Mae'r gronfa llog wedi'i neilltuo i ariannu cost benthyca yn y blynyddoedd i ddod. Ei balans ar 31 Mawrth 2026 yw £5,064,288 ac mae hyn yn cynnwys cyfraniadau llog partneriaid o £108,380, taliadau mynediad at gyllid o £24,679 a £197,746 o incwm llog ar balans y gronfa.

5.49. Dyrannwyd £412,085 o'r gronfa adnoddau i gyllideb 2025/26 ond dim ond £79,162 a ddefnyddiwyd ac roedd hyn i ariannu rolau llywodraeth ychwanegol. Arweiniodd y tanwariant ar wariant gweithwyr a chostau datblygu prosiectau a phenodi rolau llywodraeth ychwanegol yn ystod y flwyddyn at lai o gyllid ei angen o'r gronfa.

5.50. Derbyniwyd llog o £1,635,549 ar grant y Cynllun Twf a'r balans cronfa adnoddau ac felly balans y gronfa ar 31 Mawrth 2026 oedd £4,356,618. Cymeradwyodd y CBC yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr 2026 i ddefnyddio £986,730 o'r gronfa hon fel rhan o gyllideb 2026/27.

Cyfalaf

5.51. Mae Atodiad 4 yn dangos adolygiad diwedd blwyddyn rhaglen gyfalaf y Cynllun Twf ar gyfer 2025/26.

5.52. Cyfanswm y gwariant hyd at 31 Mawrth 2026 yw £30.64m.

5.53. Mae gostyngiad net o £14.28m yn y gwariant ar gyfer 2025/26 ac mae hyn oherwydd llithriad ar brosiectau. Fodd bynnag, mae gwariant ar brosiect Cydnerth wedi digwydd yn gynt gyda chyfanswm y gwariant o £8.87m yn cael ei ddangos o dan 2025/26 yn hytrach na rhwng dwy flynedd ariannol fel yr oedd wedi'i broffilio'n wreiddiol yn y gyllideb ac felly yn lleihau'r llithriad.

5.54. Mae'r gwariant yn Atodiad 4 hefyd yn cynnwys costau cyflawni prosiectau a ddangosir yn Atodiad 2 – mae rhain yn ymwneud â phrosiectau Gronfa Ynni Glân, 4G+, LPWAN a Di-wifr Uwch.

5.55. Mae'r gyllideb o 2.15% ar gyfer cyllido refeniw yn 2025/26 hefyd wedi gostwng i £0.87m i adlewyrchu y ffigurau alldro refeniw terfynol.

## Parth Buddsoddi

5.56. Cyhoeddwyd cymeradwyaeth derfynol Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam gan Lywodraethau'r DU a Chymru yng Nghyllideb 2025 a dros ddeng mlynedd y Parth Buddsoddi, mae cyfanswm o £6.4m ar gael i gefnogi gweinyddiaeth y rhaglen. O'r dyraniad hwn, dyrennir £200,000 y flwyddyn i'r CBC a £220,000 yr un i Gyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Derbyniwyd cyllid 2025/26 ym Mawrth 2026.

5.57. Mae Atodiad 5 yn darparu dadansoddiad o wariant ac incwm gwirioneddol y Parth Buddsoddi, gyda sefyllfa alldro niwtral ar gyfer 2025/26.

5.58. Mae gwariant y CBC ar y Parth Buddsoddi yn cynnwys £51,839 ar weithwyr (amser y Prif Weithredwr, Rheolwr Sgiliau Rhanbarthol a Rheolwr Prosiect Porth Sgiliau a Chyflogadwyedd), £457 ar gyflenwadau a gwasanaethau, £29,644 ar wasanaethau cefnogaeth (cyfieithu a chefnogaeth ariannol a chyfreithiol) a £131,834 ar ymgynghorwyr allanol. Dyfarnwyd £25,000 i'r CBC yn ystod y flwyddyn ariannol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cefnogaeth ymgynghorol.

5.59. Y grant Parth Buddsoddi a ddefnyddiwyd ar 31 Mawrth 2026 yw £430,220. Mae hyn yn cynnwys £200,000 o ddyraniad blynyddol y CBC a £230,220 o wariant Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

5.60. Gwariant y Parth Buddsoddi ar gyfer 2024/25 oedd £83,067 ac ariannwyd hyn gan gronfa y CBC. Mae £20,662 wedi'i ad-dalu i'r gronfa o weddill dyraniad grant blynyddol y CBC a'r llog a

dderbyniwyd ar falans y grant yn 2025/26. Bydd y £62,405 sy’n weddill yn cael ei ad-dalu o log a dderbyniwyd yn 2026/27.

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

5.61. Mae Atodiad 6 yn darparu dadansoddiad o wariant ac incwm gwirioneddol y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn erbyn ei chyllideb 2025/26.

5.62. Mae’r alldro yn sefyllfa niwtral, gyda’r gwariant o £290,000 yn cael ei ariannu gan grant Llywodraeth Cymru.

5.63. Roedd £346,422 yn y gronfa sgiliau ar 31 Mawrth 2026 i ariannu ymrwymiadau yn y maes sgiliau yn y blynyddoedd dilynol.

## 6. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD

6.1. Cyflwynwyd atodiadau’r Cynllun Twf o’r adroddiad hwn i'r Bwrdd Portffolio ar 24 Ebrill 2026, ac fe’u cyflwynwyd hefyd, ynghyd ag atodiadau’r Parth Buddsoddi a’r Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, i’r Is-bwyllgor Lles Economaidd ar 15 Mai 2026.

## 7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

7.1. Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi bod cyd-bwyllgor o ddau neu fwy o awdurdodau (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae adran 13 y Ddeddf yn mynnu bod y cyrff hyn yn cynnal cyfrifon sy'n ddarostyngedig i archwilio gan archwilydd allanol a gymeradwyir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

7.2. Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) yn mynnu bod yr holl Gyd-bwyllgorau yn paratoi cyfrifon diwedd blwyddyn. Lle mae’r Incwm neu wariant blynyddol dros £2.5m, pennir bod y cyd-bwyllgor yn "gorff perthnasol mwy" a bydd angen paratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Cyfrifo mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

---

ATODIADAU:

**Atodiad 1** Sefyllfa alldro y CBC 2025/26

**Atodiad 2** Sefyllfa alldro refeniw y Cynllun Twf 2025/26

**Atodiad 3** Sefyllfa cronfeydd y Cynllun Twf

**Atodiad 4** Sefyllfa cyfalaf y Cynllun Twf

**Atodiad 5** Sefyllfa alldro y Parth Buddsoddi 2025/26

**Atodiad 6** Sefyllfa alldro y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol 2025/26

---

YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

“Mae’r goblygiadau cyfreithiol wedi’u nodi yn yr Adroddiad. Mae’r argymhellion o fewn swyddogaethau’r CBC ac yn ymwneud â stiwardiaeth ariannol briodol, cyfrifyddu diwedd blwyddyn a rheoli cronfeydd wrth gefn.

Dylai aelodau fod yn fodlon bod y driniaeth arfaethedig o gronfeydd wrth gefn a chyllid grant yn dryloyw, wedi’i gofnodi yn briodol ac yn gyson â fframwaith cyllidebol cymeradwy y CBC. Dylai unrhyw eitemau a ohiriwyd i 2026/27 barhau i gael eu monitro trwy drefniadau adrodd ariannol, archwilio a pherfformiad arferol y CBC.

Yn amodol ar gadarnhad y Swyddog Cyllid Statudol o’r sefyllfa ariannol, nid oes unrhyw faterion cyfreithiol neu lywodraethu pellach yn deillio o’r argymhellion.”

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.

**Sefyllfa Alldro Refeniw Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2025/26** **Atodiad 1**

| | Cyllideb | | | | Sefyllfa Terfynol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cynllunio Strategol | Trafnidiaeth | Cyd-Bwyllgor Corfforedig | Cyfanswm Cyllideb | Cynllunio Strategol | Trafnidiaeth | Cyd-Bwyllgor Corfforedig | Cyfanswm Gwariant | Gorwaraint / (Tanwariant) |
| **Gwariant** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** |
| **Gweithwyr** | | | | | | | | | |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal) | 226,230 | 112,970 | 428,880 | 768,080 | 109,143 | 61,291 | 197,794 | 368,228 | (399,852) |
| Capasiti Ychwanegol Swyddog Monitro | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 46,200 | 46,200 | 46,200 |
| Hysbysebu ac Asesu Ymgeiswyr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 25,779 | 25,779 | 25,779 |
| Hyfforddiant | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3,838 | 3,838 | 3,838 |
| Lwfans aelodau lleyg | 0 | 0 | 1,230 | 1,230 | 0 | 0 | 469 | 469 | (761) |
| **Cyfanswm Gweithwyr** | **226,230** | **112,970** | **430,110** | **769,310** | **109,143** | **61,291** | **274,080** | **444,514** | **(324,796)** |
| **Teithio** | | | | | | | | | |
| Teithio a chynhaliaeth | 940 | 400 | 1,660 | 3,000 | 82 | 0 | 1,320 | 1,402 | (1,598) |
| **Cyfanswm Teithio** | **940** | **400** | **1,660** | **3,000** | **82** | **0** | **1,320** | **1,402** | **(1,598)** |
| **Cyflenwadau a gwasanaethau** | | | | | | | | | |
| Eiddo | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 16,256 | 16,256 | 16,256 |
| Offer a chyfarpar | 3,440 | 1,470 | 6,090 | 11,000 | 11 | 891 | 9,385 | 10,287 | (713) |
| Cyflenwadau amrywiol | 940 | 400 | 1,660 | 3,000 | 606 | 810 | 2,380 | 3,796 | 796 |
| Marchnata | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5,750 | 5,750 | 5,750 |
| Costau Banc | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,141 | 1,141 | 1,141 |
| Ymgysylltu a chyfarfodydd | 930 | 1,160 | 2,780 | 4,870 | 90 | 0 | 1,886 | 1,976 | (2,894) |
| Ffioedd Archwilio Cymru | 0 | 0 | 30,000 | 30,000 | 0 | 0 | 26,482 | 26,482 | (3,518) |
| Ymgynghorwyr allanol | 132,500 | 66,340 | 10,000 | 208,840 | 0 | 127,572 | 8,805 | 136,377 | (72,463) |
| Yswiriant | 15,000 | 15,000 | 30,000 | 60,000 | 1,701 | 848 | 2,767 | 5,316 | (54,684) |
| Systemau | 4,770 | 5,960 | 14,310 | 25,040 | 0 | 0 | 0 | 0 | (25,040) |
| **Cyfanswm Cyflenwadau a gwasanaethau** | **157,580** | **90,330** | **94,840** | **342,750** | **2,408** | **130,121** | **74,852** | **207,381** | **(135,369)** |
| **Gwasanaethau Cefnogol** | | | | | | | | | |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid (yn cynnwys Swyddog Adran 151) | 11,630 | 10,920 | 47,100 | 69,650 | 9,914 | 4,756 | 21,238 | 35,908 | (33,742) |
